# Datganiad ar Bolisi ac arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair | | 3 |
| Rhagymadrodd gan Rhoi Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan | | 5 |
| 1. | Diben | 9 |
| 2. | Gweledigaeth | 11 |
| 3. | Pwy yw pobl ag anabledd dysgu? | 13 |
| 4. | Faint o bobl sydd ag anabledd dysgu? | 15 |
| 5. | Cyd-destun a chwmpas | 19 |
| 6. | Rhoi pobl yn gyntaf: Cynllunio person-ganolog, gwybodaeth hygyrch ac eiriolaeth | 23 |
| 7. | Byw bywyd cyffredin | 26 |
| | *Byw yn y gymuned* | *27* |
| | *Cyflogaeth a gwasanaethau dydd* | *30* |
| | *Iechyd* | *32* |
| 8. | Anghenion iechyd cymhleth | 35 |
| 9. | Ymddygiadau heriol | 37 |
| 10. | Teuluoedd a gofalwyr eraill | 40 |
| 11. | Cynllunio strategol | 43 |
| 12. | Gweithio gyda'n gilydd | 44 |
| 13. | Cynllunio gweithlu | 46 |

## Foreword by Dr Brian Gibbons AM, Minister for Health and Social Services



Rwy'n croesawu'n gynnes gyhoeddi ein Datganiad cyfredol ar Bolisi ac Arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu. Dyma oedd yr amser iawn i ni ddod â'n polisi anabledd dysgu ymlaen i'r 21ain ganrif a'i osod o fewn cyd-destun ein dulliau strategol eraill o weithredu tuag at foderneiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gwella bywydau ein dinasyddion.

Er dros 20 mlynedd, bu 3 prif egwyddor yn sail i'n polisi anabledd dysgu mewn cysylltiad â'r hawliau: yr hawl i gael patrwm bywyd cyffredin; i gael eu trin fel unigolion; ac i gymorth ychwanegol a chefnogaeth gael eu darparu er mwyn cynyddu potensial i'r eithaf. Mae'r 3 egwyddor hon wedi dod yn bader bron i lawer o randdeiliaid. Mae ein datganiad cyfoes yn cefnogi'r egwyddorion hyn ond yn dweud fod angen eu diweddaru a'u cadarnhau o'r newydd. Mae paragraff 2.5 o'n datganiad cyfoes yn nodi ein datganiad egwyddorion newydd. Rwy'n siŵr y caiff y rhain eu mabwysiadu'n gyflym gan randdeiliaid ac y byddant yr un mor hanfodol yn fuan i'r gwerthoedd a'r weledigaeth sy'n tanategu cymorth i bobl ag anableddau dysgu â'r 3 egwyddor y maent yn eu diweddaru. Mae'n bleser gennyf gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i'r datganiad egwyddorion cyfoes hwn.

Rwy'n cymeradwyo'r rhagair yn y datganiad hwn a ddarparwyd gan Rhoi Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan i chi i gyd. Mae'r rhagair hwn yn cynnwys negeseuon grymus ac rwy'n eu cefnogi.

Hoffwn gydnabod y cyfraniad sylweddol a wnaeth y Grŵp Cynghori ar Weithredu Anabledd Dysgu tuag at ddatblygu ein datganiad polisi cyfoes a hoffwn ddiolch hefyd i'r rhai holl rai hynny a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y datganiad drafft.

**Dr Brian Gibbons AC**
Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mawrth 2007

# Rhagymadrodd gan Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

Mae Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan wedi bod wrthi'n ymwneud â pharatoi'r Datganiad hwn ar Bolisi ac Arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu.

Bu hwn yn gyfle i'w groesawu i bobl ag anableddau dysgu ymwneud yn uniongyrchol â llunio polisïau. Cawsom gyfle i roi ein safbwynt gwerthfawr iawn sy'n adlewyrchu dyheadau, gobeithion, breuddwydion, angenrheidiau ac anghenion pobl ag anableddau dysgu. Daethom yn rhan o hyn trwy ein haelodaeth o'r Grŵp Cynghori ar Weithredu Anabledd Dysgu a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn ei ymateb i'r adroddiad Gwireddu'r Addewidion. Mae llawer o grwpiau gwahanol, gan gynnwys rhieni, gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, wedi bod yn ymwneud â chynhyrchu'r datganiad hwn. Mae'n weledigaeth ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag anabledd dysgu.

Bydd y Datganiad ar Bolisi ac Arfer yn ei gwneud yn haws i bobl ag anableddau dysgu gael eu cynnwys mewn byw yn y gymuned a chael mwy o gyfleoedd i ddatblygu eu ffyrdd o fyw eu hunain. Rydym am godi pontydd rhyngom a'r byd mawr tu allan ac rydym yn gweld hon fel proses ddwyffordd. Rydym am i bobl ein deall yn well a'n gwerthfawrogi. Gallwn wneud cyfraniad gwerthfawr i'r gymuned a gallwn gynorthwyo pobl yn y gymuned i'n gweld fel dinasyddion gwerthfawr. Byddai gwneud y cysylltiadau hyn yn gwneud y gymuned yn fwy diogel i bawb.

Mae'r Datganiad ar Bolisi ac Arfer yn cynnwys llawer o feysydd ond mae rhai pynciau sy'n hollbwysig i ni:

**Eiriolaeth** - siarad drosom ein hunain neu gael eiriolwr i'n helpu i fynegi'n syniadau'n glir.

Mae hunan-eiriolaeth yn golygu llawer o bethau i ni, fel cael ein parchu, dweud na, codi llais dros ein hawliau, gwneud gwahaniaeth, ennill hyder, sicrhau hawliau cyfartal. Heb hunan-eiriolaeth ni fyddai modd i ni godi llais na chael y cymorth gan bobl eraill - gan gynnwys cymorth gan bobl eraill ag anableddau dysgu. Mae hunan-eiriolaeth yn rhoi'r hyder i ni oresgyn pethau nad oeddem erioed yn credu fyddai'n bosibl.

**Cynllunio Person-ganolog** - cynllunio ein bywyd fel y dymunwn wneud hynny gyda'r cymorth a'r gwasanaethau iawn i'n helpu.

Mae Cynllunio Person-ganolog yn rhoi'r cyfle i wneud pethau'n wahanol. Mae'n erfyn pwysig sy'n gallu agor bydau pobl. Mae'n golygu y gallem ddewis byw ar ein pen ein hunain o bosibl neu gynllunio ein dyfodol yn wahanol. Mae Cynllunio Person-ganolog yn ein galluogi i wneud ein dewisiadau ein hunain ynghylch nid yn unig beth sy'n bosibl ond beth allai fod yn bosibl.

**Pontio** - cynllunio ar gyfer newid i fod yn oedolion.

Dyma pryd mae bywydau pobl yn dechrau o ddifri. Yn y gorffennol, roedd llawer o bobl yn llithro drwy'r rhwyd ac yn mynd o'r ysgol i ganolfan ddydd. Mae Cynllunio Person-ganolog yng nghyfnod pontio bywyd unigolyn wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn i rai pobl yn barod o ran eu helpu i gael gwahanol ddewisiadau, eu cynnwys yn eu cynlluniau eu hunain ar gyfer newidiadau bywyd. Dylai pobl o wahanol wasanaethau gydweithio a gwrando ar bobl ag anableddau dysgu yn anad dim a pharhau i weithio gyda'i gilydd i gyflawni ein dymuniadau a'n hanghenion. Dylai pobl eraill, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, fod yn gysylltiedig â rhoi cymorth cadarnhaol yn y cam cynllunio.

**Cyfleoedd Dydd** - beth mae pobl yn ei wneud yn ystod y dydd.

Rydym am gael cyfleoedd mwy ystyrlon mewn addysg, cyflogaeth a gweithgareddau â chymorth. Rydym am symud i ffwrdd oddi wrth y sesiynau safonol mewn canolfannau dydd y mae pawb yn ddim ond eu mynychu. Rydym am wneud pethau sy'n ysbrydoli fwy. Rydym yn croesawu'r rhaglen foderneiddio ar gyfer gwasanaethau dydd, lle caiff pobl ddewis ystod o weithgareddau a gwasanaethau sy'n rhoi pleser i bobl yn ogystal â rhoi cyfle i'w sgiliau ddatblygu. Cydnabyddwn fod hyn yn fwy anodd i bobl ag anghenion cymhleth, ond rydym am i bobl gydnabod eu bod yn rhannu'r un dyheadau.

**Cyflogaeth** - cyflog go iawn am swydd go iawn.

Mae cyflogaeth yn aml yn golygu gwaith sylfaenol iawn i bobl ag anableddau dysgu un ai mewn siopau neu ffatrïoedd. Credwn y gall pobl ag anableddau dysgu gychwyn mewn ffordd fach a gweithio i fyny yn eu swyddi, gan ddatblygu sgiliau mwy. Nid ydym am fod yn wyddonwyr o fri ond hoffem i bawb fod â meddwl agored ynghylch posibiliadau pobl ag anableddau dysgu ym myd gwaith. Mae llawer o bobl ag anableddau dysgu eisoes yn gweithio fel gwirfoddolwyr mewn amrywiaeth eang o swyddi ble maent yn cymryd llawer o gyfrifoldebau,

er enghraifft mewn gwaith Pobl yn Gyntaf. Fel hyn, maent yn dysgu sgiliau y gellir eu trosglwyddo'n hawdd i swyddi eraill. Mae arnom angen mwy o gyfleoedd i gyflawni nodau mwy. Mae'n bwysig ein bod yn gallu dewis o amrywiaeth o gyfleoedd gwaith rydym yn teimlo'n fodlon yn eu cylch ble cymerir cyfrif o'n hoff a chas bethau. Dylai'r sgiliau hyn gyd-fynd â'n sgiliau a'n potensial.

Gwyddom fod pobl ag anableddau'n pryderu llawer ynghylch gwaith cyflogedig oherwydd y collir budd-daliadau. Mae hyn yn rhwystr gwirioneddol i gyflogaeth ac rydym yn gobeithio am newid.

**Addysg** - yr hawl i addysg lawn.

Mae gan bobl hawl i addysg lawn. Mewn colegau, mae cyrsiau penodol ac ar wahân ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ond rydym hefyd am gael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod ehangach o gyrsiau gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol. Rydym yn cydnabod y gallem fod angen cefnogaeth ychwanegol i allu gwneud hyn ac mae angen i'r gwasanaeth addysg fod yn ymwybodol o hyn a'i gynnwys o fewn gwasanaethau. Byddai hyn yn arwain at i bobl gael mwy o agoriadau, gwell cyfleoedd yn eu bywyd a'u dyfodol, a chael eu cynnwys i raddau mwy mewn dysgu yn y gymuned.

**Llety a Byw yn Annibynnol** - Cael lle eich hun a bywyd eich hun.

I lawer ohonom, dyma ein prif nod mewn bywyd. Mae cael eich cartref eich un yn gallu'ch gosod yng nghanol cymuned. Os ydym am lwyddo i fyw yn ein cartrefi ein hunain mae angen i ni allu dewis o amrywiaeth o dai da mewn lleoliadau addas. Ac mae arnom angen y cymorth iawn sy'n cyd-fynd ag anghenion pobl.

Mae'r pwyntiau allweddol hyn yn dangos y gallwn sicrhau gwell cynhwysiant mewn cymdeithas trwy adeiladu ar sgiliau a gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl. Gallwn adeiladu pontydd i weithio gyda'r gwahanol wasanaethau a busnesau, a byw mewn gwirionedd fel dinasyddion a werthfawrogir, fel rhan o'n cymdogaeth leol ac fel rhan o'r gymuned ehangach.

Mae amcanion clir ym mhob adran o'r Datganiad ar Bolisi ac Arfer hwn. Wrth i'n rôl ar y Grŵp Cynghori ar Weithredu Anabledd Dysgu barhau, byddwn yn gallu monitro cynnydd ac edrych ar ddatblygiadau a gweld a yw bywydau pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru wedi gwella o ganlyniad i'r datganiad.

Mae'r Datganiad ar Bolisi ac Arfer hwn yn weledigaeth heriol o sut hoffem i'n bywydau ni i gyd fod. Mae Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn falch o fod wedi cyflawni hyn ac mae'n annog pob sefydliad sy'n gweithio ym maes anabledd dysgu i weithio gyda'n gilydd i wireddu ei weledigaeth. Mae pobl yn ein bywydau sydd wedi credu ynom. Mae'r credu hwn yn trawsnewid y ffordd rydym yn ein gweld ei hunain. Mae wedi rhoi'r hyder i ni sefyll dros ein hawliau a mynnu gwell bywyd. Gofynnwn i bawb gael y dewrder i gredu ynom a wynebu'r her.

**Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan**

## Datganiad ar Bolisi ac arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu

*Cyhoeddir y Datganiad ar Bolisi ac Arfer ar gyfer oedolion ag Anabledd Dysgu hwn o dan Adran 7(1) o Ddeddf Gwasanaethau Awdurdod Lleol 1970.*

# 1. Diben

**1.1** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod yr angen parhaus i geisio gwella bywydau pobl ag anabledd dysgu. Mae dull Llywodraeth y Cynulliad o weithredu wedi ei seilio ar y dull a sefydlwyd gan Strategaeth Anfantais Meddwl Cymru Gyfan 1983 a'r Canllawiau Diwygiedig a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 1994, ac a gafodd eu datgan o'r newydd gan Gabinet Llywodraeth y Cynulliad ym mis Mehefin 2002.

**1.2** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod, er bod llawer o egwyddorion, nodau ac amcanion dogfennau Strategaeth 1983 a 1994 yn dal i fod yn berthnasol, fod angen darparu datganiad clir o fwriad ar gyfer yr 21ain ganrif. Comisiynwyd y Grŵp Cynghori ar Anabledd Dysgu i roi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar fframwaith o wasanaethau.

**1.3** Crynhoir y gwaith a wnaed gan y Grŵp Cynghori ar Anabledd Dysgu yn yr adroddiad Gwireddu'r Addewidion. Bu'r ddogfen hon yn destun ymgynghori eang ac amlinellwyd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad a'r ymgynghoriad ym Mhapur y Cabinet (01-02) 72 Mehefin 2002. Fel rhan allweddol o'i ymateb, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y Canllawiau Adran 7 ar Egwyddorion Gwasanaeth ac Ymatebion Gwasanaeth i Oedolion a Phobl Hŷn ag Anabledd Dysgu.

**1.4** Er y gwnaed cynnydd sylweddol yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod fod angen datblygu pellach os yw pobl ag anabledd dysgu'n mynd i allu byw mor annibynnol â phosibl a bod yn aelodau gwerthfawr o'n cymdeithas.

**1.5** Mae'r Datganiad Polisi ac Arfer hwn yn disgrifio'r prif egwyddorion, nodau, ymatebion a chanlyniadau sy'n ddymunol ym marn Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r rhain yn adeiladu ar Ganllawiau Strategaeth blaenorol ac yn gyson â Chanllawiau Adran 7 2004 Llywodraeth y Cynulliad ar Egwyddorion Gwasanaeth ac Ymatebion Gwasanaeth Service Responses i Oedolion a Phobl Hŷn ag Anabledd Dysgu.

**1.6** Paratowyd drafft cychwynnol y Datganiad Polisi ac Arfer gan y Grŵp Cynghori ar Weithredu Anabledd Dysgu. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y datganiad drafft hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o 16 wythnos rhwng Mawrth a Mehefin 2006. Derbyniwyd 40 ymateb i'r ymgynghoriad gan unigolion, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG, amrediad o sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eraill, y Comisiwn Hawliau Anabledd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac ESTYN. Trafodwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gyda'r Grŵp Cynghori ar Weithredu Anabledd Dysgu a fu'n gweithio wedyn gyda Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu'r fersiwn terfynol o'r Datganiad hwn.

**1.7** Mae Llywodraeth y Cynulliad o dan ddyletswyddau statudol i geisio sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes, ac arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb. Gan fod mwyafrif swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael eu dirprwyo i'r Prif Weinidog ac yn cael eu cyflawni gan Lywodraeth y Cynulliad, yn ymarferol Llywodraeth y Cynulliad sy'n bennaf gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb hyn. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad sylw dyledus i'r ystyriaethau cyfle cyfartal hyn wrth ddatblygu'r canllawiau hyn.

**1.8** Tanategir yr agenda cyfleoedd cyfartal gan gorff mawr o ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i awdurdodau a chyflogwyr neu ddarparwyr gwasanaeth eraill. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys:

- Deddf Cyflog Cyfartal 1970
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd a Chredo) 2003
- Deddf Cydnabod Rhyw 2004
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005
- Deddf Cydraddoldeb 2006
- Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl 2006

# 2. Gweledigaeth

> *'Disabled people, whatever the origin, nature and seriousness of their handicaps and disabilities, have the same fundamental rights as their fellow citizens of the same age, which implies first and foremost the right to enjoy a decent life, as normal and full as possible.'*
>
> *Cenhedloedd Unedig (1975) Y Datganiad ar Hawliau Pobl Anabl*

**2.1** Mae Cymru: Gwlad Well yn disgrifio'r ffordd ymlaen i Gymru. Mae'r ddogfen yn datgan:

Ein gweledigaeth ni felly yw creu dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru lle mae'r camau ar gyfer gwella'r sefyllfa gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn ategu ei gilydd i greu newidiadau cadarnhaol:

- hyrwyddo economi amrywiol, gystadleuol sy'n ychwanegu gwerth sylweddol, gyda lefelau sgiliau ac addysg uchel, sy'n cael cyn lleied o effaith â phosib ar yr amgylchedd
- cymryd camau ym maes cyfiawnder cymdeithasol i fynd i'r afael â thlodi ac afiechyd a chynnig ffordd i bobl helpu eu hunain a'u cymunedau a dianc o fagl tlodi
- cymryd camau yn ein hamgylchedd adeiledig a naturiol i hybu balchder yn y gymuned, gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo cyflogaeth leol a helpu i gadw'r gwastraff a gynhyrchir a'r galw am ynni a thrafnidiaeth i'r lefel isaf bosibl
- cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a helpu i greu gwlad ddwyieithog
- sicrhau bod ein holl blant a'r cenedlaethau sydd i ddod yn mwynhau gwell rhagolygon mewn bywyd ac nad ydynt yn etifeddu problemau beichus oddi wrthym ni
- cefnogi pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol
- hyrwyddo bod yn agored, cydweithio a chymryd rhan.

**2.2** Nod Llywodraeth y Cynulliad yw hyrwyddo cymdeithas gynhwysol sy'n rhoi safon byw gweddus i bawb. Mae'r datganiad polisi cyfredol yn cydnabod yn gwbl glir fel rhan o'r agenda cynhwysiant hwn fod y gobeithion y mae wedi'u datgan ar gyfer pobl Cymru yn eu cyfanrwydd yn berthnasol yn llwyr ac i'r un graddau i bobl ag anableddau dysgu. Yn Ionawr 2002, mabwysiadodd Llywodraeth y Cynulliad ddull o weithredu wedi'i seilio ar y model cymdeithasol o anabledd ac mae'n ymrwymedig i ganlyn arni'n systematig gyda'r polisi o gynhwysiant ar draws pob portffolio cabinet.

**2.3** Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn cydnabod, er y gall fod nam ar unigolion, y gallant hefyd gael eu hanalluogi gan y modd y mae cymdeithas yn ei threfnu ei hun. Er enghraifft:

- gallai person fod â nam gweledol allai effeithio ar ba mor rhwydd y mae ef neu hi'n llwyddo i wneud gwaith, gweithgareddau hamdden neu fyw bob dydd penodol. Ond gall agweddau a dealltwriaeth pobl eraill leihau graddau'r anabledd y mae person yn ei brofi ynghyd â'r graddau y mae addasu amgylcheddol (e.e. testun mewn Braille, dodrefn a rhodfeydd wedi'u trefnu'n glir a chyson, cymorth arbennig ar gyfer yr unigolyn fel ci tywys, neu drefniadau penodol gyda chydweithwyr yn y gwaith) helpu'r person i fyw ei fywyd.
- Mewn modd cyffelyb, er bod gan bobl ag anableddau dysgu ystod o anghenion yn codi o'u cyflwr, mae rhwystrau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn eu hanalluogi hefyd.

**2.4** Mae helpu pobl i fyw bywydau llawn a chynhwysol yn golygu rhoi sylw i fwynhau'r posibiliadau iddynt weithredu'n annibynnol neu gyda chymorth a dileu rhwystrau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

**2.5** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi perthnasedd parhaus yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Anfantais Meddwl Cymru Gyfan 1983 a gadarnhawyd yng Nghanllawiau Diwygiedig 1994. Er hynny, ar ôl derbyn cyngor gan y Grŵp Cynghori Gweithredu ar Anabledd Dysgu, mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn fod angen diweddaru'r egwyddorion hyn a'u cadarnhau o'r newydd. Mae gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y dyfodol wedi'i seilio ar y datganiad egwyddorion a ganlyn:

"Mae pob person ag anabledd dysgu'n ddinasyddion llawn, cyfartal o ran statws a gwerth i ddinasyddion eraill yr un oed. Mae'r un hawliau ganddynt i:

- fyw bywydau iach, cynhyrchiol ac annibynnol gyda thriniaeth a chymorth priodol ac ymatebol i ddatblygu eu potensial mwyaf posib
- bod yn unigolion a phenderfynu ar faterion bob dydd a materion allweddol i'w bywydau drostynt eu hunain gan ymuno ym mhob proses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, gyda chyngor a chymorth priodol ac ymatebol lle bo angen
- byw eu bywydau o fewn eu cymuned, gan gynnal y rhwymau a'r cysylltiadau teuluol a chymdeithasol sy'n bwysig iddynt
- cael cymorth y cymunedau y maent yn rhan ohonynt a mynediad at wasanaethau cyffredinol ac arbenigol sy'n ymatebol i'w hanghenion, eu hamgylchiadau a'u dewisiadau unigol."

# 3. Pwy yw Pobl ag Anabledd Dysgu?

**3.1** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu fod angen cymhwyso termau a diffiniadau'n ystyriol er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng mynd i'r afael ag anghenion canran sylweddol o'r boblogaeth a cheisio sicrhau dealltwriaeth wirioneddol o natur unigryw a gwahanol unigolion:

- Mabwysiadodd Llywodraeth y DU y term 'anableddau dysgu' yn 1991. Roedd yn disodli termau blaenorol a ddefnyddid yn y DU sy'n ymddangos yn ddifrïol iawn erbyn hyn fel 'anfantais meddwl' neu 'nam meddyliol', ac yn ddewis arall rhagor na thermau fel i 'arafwch meddwl' a ddefnyddir mewn gwledydd eraill.
- Mae'r term 'anableddau deallusol' yn cael ei ddefnyddio fwy a mwy mewn deialog ryngwladol gan fod y term 'anableddau dysgu' yn cael ei ddefnyddio mewn rhai gwledydd eraill i gyfeirio ar gyflyrau fel dyslecsia lle nad oes cysylltiad o anghenraid ag anabledd deallusol.

**3.2** Beth sydd gan bobl ag anableddau dysgu'n gyffredin? O'u geni neu blentyndod cynnar bydd nam wedi bod ar eu gweithrediad deallusol sy'n effeithio'n sylweddol ar eu datblygiad ac yn arwain at anawsterau o ran dealltwriaeth, a defnyddio gwybodaeth dysgu sgiliau newydd a llwyddo i fyw'n annibynnol. Maent felly'n fwy tebygol o fod angen cymorth a gwasanaethau i allu byw bywyd cyffredin.

**3.3** Mae graddau'r anawsterau hyn yn amrywio'n sylweddol o fân anhawster i anhawster dwys ac mae pob unigolyn yn wahanol ac felly mae'r ystod cymorth sydd ei angen yn amrywio o ychydig iawn o gymorth i gymorth helaeth. Yn ymarferol, mae nifer y bobl sydd wedi eu hadnabod fel rhai ag anabledd dysgu'n yn ôl gwasanaethau'n awgrymu fod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru sy'n derbyn gwasanaethau ag anableddau dysgu difrifol neu ddwys.

**3.4** Ar y cyfan, po fwyaf yw graddau'r anabledd dysgu bydd yn fwy tebygol y bydd gan y person fwy o anghenion. Er ei bod yn bosibl mai ychydig o broblemau sylweddol sydd gan rai pobl â mân anableddau dysgu, gall y rhai hynny sydd ag anableddau dysgu difrifol neu ddwys fod â gwahanol anghenion cysylltiedig â'i gilydd sy'n effeithio'n fawr ar bob agwedd o'u bywydau. Mae a wnelo anawsterau cyffredin â:

- Deall a defnyddio gwybodaeth
- Gwneud dewisiadau a phenderfyniadau

- Dysgu a defnyddio dulliau symbolaidd o gyfathrebu
- Bob yn annibynnol gartref a gallu symud o gwmpas yn y gymuned
- Ymdrin â sefyllfaoedd cymdeithasol.

**3.5** Yn sgil anawsterau felly, bydd pobl ag anableddau dysgu angen cymorth yn aml gyda gweithgareddau cyffredin bywyd pob dydd, gan gynnwys:

- Ble a sut i fyw
- Gwaith a hamdden
- Perthnasoedd
- Cadw'n heini ac iach.

**3.6** Yn ogystal, bydd gan rai pobl anghenion mwy cymhleth yn codi o broblemau ychwanegol, gan gynnwys:

- Namau corfforol
- Namau synhwyraidd
- Anawsterau seicolegol
- Salwch meddwl
- Cyflyrau niwrolegol (e.e. epilepsi, parlys yr ymennydd)
- Anawsterau ymddygiad.

Mae'r rhain i gyd yn amrywio o ran difrifoldeb a graddau effaith gymdeithasol.

**3.7** Y pedwar ffactor allweddol a ddisgrifir yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar y Broses Asesu Unedig yw ymreolaeth, iechyd a diogelwch, rheoli trefniadau dyddiol, a chynnwys (gweler Adran 5, Paragraff 5.4 ymlaen). I'r rhan fwyaf o unigolion, mae'r angen am gymorth i gynnal y ffactorau hyn yn deillio o ddifrifoldeb eu hanabledd dysgu.

**3.8** I rai eraill, yn arbennig y rhai hynny â mân anabledd dysgu, nid graddau'r anabledd dysgu sy'n pennu eu statws fel defnyddiwr gwasanaethau, ond presenoldeb rhyw ffactor sylweddol arall fel awtistiaeth, salwch meddwl, ymddygiad troseddol neu'r ffaith fod unigolyn yn agored i niwed. Nid yw rhai plant a asesir fel rhai ag anghenion addysgol arbennig yn sgil anawsterau dysgu'n mynd ymlaen i ddefnyddio gwasanaethau anabledd dysgu i oedolion.

# 4. Faint o Bobl Sydd ag Anabledd Dysgu?

**4.1** Mae gan anabledd dysgu lawer o achosion genetig, amgylcheddol a chymdeithasol. Nid yw'n syndod felly, fod nifer yr achosion a geir yn gallu amrywio rhwng ardaloedd a thros amser.

**4.2** Mae'n anodd amcangyfrif nifer yr achosion o anableddau dysgu ar enedigaeth oherwydd yn nes ymlaen mewn bywyd pan ellir profi deallusrwydd neu pan ddaw'r oedi nodweddiadol mewn gweithredu cymdeithasol a sgiliau ymaddasol yn amlwg, y daw hyn yn glir. Dim ond rhai o'r cyflyrau cysylltiedig ag anableddau dysgu[1] difrifol hyd yn oed y gellir eu hadnabod ar enedigaeth. Fel arfer, mae nifer yr achosion oed-benodol o anableddau dysgu difrifol yn tyfu trwy'r blynyddoedd cyn-ysgol ac ysgol wrth i blant ag anableddau dysgu difrifol gael eu hadnabod. Awgrymai amcangyfrifon ar ddechrau'r 1990au fod tua 5 o bobl ag anableddau dysgu difrifol fesul 1,000 o'r boblogaeth gyfan yn yr oedran 15-24 oed. Mae caniatáu ar gyfer marwolaethau yn ystod plentyndod yn rhoi amcangyfrif o nifer yr achosion ar enedigaeth yn o leiaf 6 fesul 1,000.

**4.3** Mae marwolaethau ymhlith pobl ag anableddau dysgu difrifol yn tueddu i fod yn uwch nag ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol. Felly, mae cyfraddau oed-benodol yn tueddu i ddisgyn drwy'r blynyddoedd oedolion. Roedd amcangyfrifon ar ddechrau'r 1990au'n awgrymu'r cyfraddau oed-benodol a ganlyn ar gyfer anableddau dysgu difrifol:

- 3.5-4.0 pobl fesul 1,000 25-44 oed
- 2.0-2.5 pobl fesul 1,000 45-64 oed
- 1.0-1.5 pobl fesul 1,000 65 oed a throsodd.

**4.4** Roedd cyfradd nifer yr achosion cyffredinol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu difrifol oddeutu 360-380 fesul 100,000 o'r boblogaeth gyfan. O'i chymhwyso i boblogaeth Cymru, byddai cyfradd o'r fath wedi awgrymu bod oddeutu 10,830 o bobl ag anableddau dysgu difrifol yn byw yng Nghymru ar y pryd. Mae hyn yn gyson ar y cyfan â'r ffaith bod 10,168 o bobl ar gofrestri anableddau dysgu awdurdodau lleol yng Nghymru yn 1990.

1 Mae cyfeiriadau yn yr adran hon ac mewn mannau eraill yn y ddogfen hon at 'anableddau dysgu difrifol' yn cynnwys 'anableddau dysgu dwys'.

**4.5** Mae pwysau tuag i fyny ar nifer yr achosion (h.y. achosion o'r newydd) o anableddau dysgu yn cynnwys:

- Cynnydd yn oed y fam (cysylltiedig â ffactorau risg uwch ar gyfer rhai cyflyrau cysylltiedig ag anabledd dysgu, fel syndrom Down).
- Cynnydd yn nifer y babanod 'mewn perygl' sy'n goroesi, fel babanod â phwysau geni isel, oherwydd gwell gofal iechyd.
- Cynnydd mewn bygythiadau cyn-geni a ddaeth yn arwyddocaol yn fwy diweddar fel haint HIV a chamddefnyddio sylweddau.
- Cynnydd yng nghanran y plant sy'n tyfu mewn tlodi.

**4.6** Mae pwysau tuag i lawr yn nifer yr achosion o anableddau dysgu yn cynnwys:

- Effaith sgrinio cyn-geni am syndrom Down (yr amcangyfrifir ei fod yn lleihau 'cyfradd naturiol' o 1.5 fesul 1,000 genedigaeth i tua 0.9 -1.1 fesul 1,000).
- Gwell gofal iechyd a chymorth yn arwain at lai o fabanod 'mewn perygl' yn datblygu anableddau dysgu.

**4.7** Er hynny, mae newidiadau yn nifer yr achosion (h.y. achosion newydd) o anableddau dysgu yn cymryd amser hir i weithio trwodd i effeithio ar nifer yr achosion (h.y. nifer) y bobl ag anableddau dysgu. Y ffactor mwyaf arwyddocaol o ddigon sydd wedi effeithio ar nifer yr achosion yw cynnydd mewn disgwyliad oes. Mae hyn wedi gorbwyso unrhyw duedd at i lawr yn sgil sgrinio cyn-geni ac atal. Credir bellach y bydd y mwyafrif o oedolion ag anableddau dysgu mewn gwledydd datblygedig sy'n byw tu hwnt i'w trydydd degawd yn debygol o fyw nes eu bod yn hen bobl a phrofi'r broses heneiddio normal. Erbyn hyn mae 3.6 gwaith yn fwy o bobl 16 oed a throsodd ar gofrestri anabledd dysgu yng Nghymru nag sydd o blant o dan 16 oed.

**4.8** Awgryma amcangyfrifon fod cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion o bobl ag anableddau dysgu difrifol ers dechrau'r 1990au o rhwng 15% a 25% ym mhob band oed deng-mlynedd rhwng 35 oed a 64 oed, yn ogystal â nifer yr achosion o bobl rhwng 65 a 74 oed wedi dyblu, a dechreuadau poblogaeth hen iawn sylweddol.

**4.9** Mae'r amcangyfrifon hyn yn gyson â'r cynnydd o 26% a adroddwyd yn nifer y bobl rhwng 16 oed a throsodd ar gofrestri anabledd dysgu awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 1990 a 2005 (gweler Tabl 1). Mae amcangyfrifon o'r Adran Iechyd yn awgrymu y bydd y duedd tuag at nifer cynyddol o bobl ag anableddau dysgu'n cael ei chynnal dros ddau ddegawd cyntaf yr 21ain ganrif.

**4.10** Yn ogystal â chynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu yn y boblogaeth, mae'r gostyngiad mewn marwolaethau gwahaniaethol, sy'n arbennig o ddifrifol ymhlith pobl â'r anableddau mwyaf dwys a lluosog, yn golygu bod nifer cynyddol o oedolion ag anghenion cymhleth sydd angen cymorth. Cydnabyddir y bydd gan hyn, ynghyd â'r cynnydd cyffredinol yn niferoedd y bobl i'w gwasanaethau, oblygiadau o ran cynyddu lefelau'r ddarpariaeth gwasanaeth a gwariant ar adnoddau dros yr 20 mlynedd nesaf.

**4.11** Nid oes unrhyw astudiaethau ar y gyfradd achosion o anableddau dysgu ymhlith cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae data a gasglwyd o 12 o awdurdodau lleol Cymru'n awgrymu bod 1.1% o'u cleientiaid anabledd dysgu sy'n oedolion yn dod o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r gyfran hon yn awgrymu tan gynrychioliad. Mae nifer o astudiaethau yn Lloegr wedi adrodd am nifer uwch o achosion o anableddau dysgu ymhlith grwpiau oedran iau mewn cymunedau De Asiaidd. Priodolwyd hyn ar wahanol adegau i lefelau uwch o amddifadedd perthnasol a chymdeithasol, mynediad gwael at ofal iechyd i'r fam, cam-ddosbarthu a chyfraddau uwch o ffactorau risg amgylcheddol neu enetig. Ond bu anghytuno ynglŷn â'r casgliad cyfraddau achosion uwch, gan ddweud y gallai godi o amrywiad ar hap o dderbyn y meintiau poblogaeth bach a astudiwyd. Canfu astudiaeth ar raddfa fwy yn Swydd Gaerlŵr nad oedd nifer mwy o achosion o anableddau dysgu ymhlith oedolion o gymunedau De Asiaidd nag ymhlith cymunedau gwyn. Yn wir, roedd nifer yr achosion yn is mewn grwpiau oedran hŷn, canfyddiad a briodolwyd i'r broses ddethol gynhenid mewn mewnfudo cenhedlaeth gyntaf. Wrth i gymunedau aeddfedu felly, gellid disgwyl cynnydd yn nifer yr achosion.

**4.12** Yn Nhabl 1 dangosir y newidiadau rhwng 1990 a 2005 yn niferoedd y bobl 16 oed a throsodd ar gofrestri anabledd dysgu a ble cofnodwyd eu bod yn byw. Ar y cyfan, mae niferoedd y bobl dros 16-64 oed a thros 65 oed wedi cynyddu 23% a 53% yn y drefn yna er 1990. Yn 2005, roedd 439 o bobl 16 oed a throsodd fesul 100,000 o bobl ym mhoblogaeth Cymru oedd yn 16 oed a throsodd (511 16-64 oed fesul 100,000 pobl 16-64 oed ac 179 65 oed a throsodd a thros fesul 100,000 pobl 65 oed a throsodd).

**4.13** Roedd y niferoedd mewn tai llety, tai â chymorth a gofal preswyl (GIG, awdurdod lleol, preifat neu wirfoddol, neu fath arall) gyda'i gilydd tua 3,100 yn y dechrau a 3,400 ar ddiwedd y cyfnod a rhywfaint yn is ganol yr 1990au. Mae lefel darpariaeth 2005 yn cyfateb i gyfradd o 116 fesul 100,000 o'r boblogaeth gyfan.

Tabl 1 Niferoedd y bobl ag anableddau dysgu 16 oed a throsodd ar gofrestri awdurdodau lleol yng Nghymru yn ôl man preswylio ar gyfer y blynyddoedd 1990, 1994, 1998, 2000, 2003 a 2005.

| Blwyddyn | Cartref ei hun | Cartref Teuluol/ Maeth | Tai Llety/ Byw â Chartref | GIG | ALI | Preifat/ Gwirfoddol | Arall | Cyfanswm 16-64 oed | Cyfanswm 65+ oed | Cyfanswm 16+ oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1990 | 586 | 4,545 | 181 | 1,478 | 584 | 765 | 85 | 7,717 | 607 | 8,324 |
| 1994 | 1,071 | 5,116 | 202 | 844 | 596 | 1,343 | 105 | 8,526 | 751 | 9,277 |
| 1998 | 1,168 | 5,239 | 276 | 469 | 428 | 1,572 | 57 | 8,251 | 860 | 9,209 |
| 2000 | 1,428 | 5,155 | 430 | 354 | 405 | 1,655 | 67 | 8,685 | 809 | 9,494 |
| 2003 | 1,980 | 5,049 | 724 | 218 | 322 | 1,752 | 80 | 9,284 | 841 | 10,125 |
| 2005 | 1,904 | 5,120 | 1,372 | 168 | 256 | 1,529 | 101 | 9,524 | 926 | 10,450 |

Nodiadau:

1990: Mae'r dosbarthiad Cartref ei Hun, Cartref Maeth/Teuluol a Thai Llety/Byw â Chymorth wedi ei amcangyfrif ar gyfer Gwynedd o'r dosbarthiad yn 1991 ond wedi ei seilio ar y cyfanswm diffiniedig o 'Leoliadau Cymunedol' ar gyfer 1990

1994: Mae'r data ar gyfer llety Preifat/Gwirfoddol yng Nghlwyd ar gyfer 1993

1998: Mae data Caerdydd ar gyfer 1999 gan fod cyfres ddata 1998 yn anghyflawn

# 5. Cyd-destun a Chwmpas

**5.1** Cred Llywodraeth y Cynulliad ei bod yn bwysig bod pawb yn gallu chwarae rhan lawn mewn cymdeithas fodern. Yn fwy nag unrhyw grŵp arall o bosibl, mae pobl ag anabledd dysgu yn agored i eithrio cymdeithasol a gwahaniaethu. Dylid dileu rhwystrau felly sy'n eu hatal rhag cymryd eu lle cyfartal mewn cymdeithas a chael y driniaeth a'r cymorth priodol i'w hanghenion. At hynny, er bod presenoldeb anabledd dysgu'n gallu arwain ar brofiad o anfantais a rennir, mae graddau'r anfantais yn debygol o ddibynnu ar lefel yr anabledd. Mae ymchwil wedi dangos yn gyson fod gan y bobl â lleiaf o sgiliau annibynnol:

- broblemau iechyd mwy
- bywydau cymdeithasol llai prysur
- llai o integreiddio cymunedol
- llai o ffrindiau
- llai o ran ym mywyd bob dydd cartref, a,
- llai o waith adeiladol drwy gydol y dydd.

**5.2** Mae angen rhoi sylw arbennig felly i sut i fodloni egwyddorion tegwch a chynhwysiant i bobl â'r anableddau dysgu mwyaf difrifol.

**5.3** Gwnaed cynnydd sylweddol o ran newid natur y cymorth gwasanaeth sydd ar gael i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd ond mae angen gwneud mwy. Gyda golwg ar hyn, rhoddir sylw i anghenion penodol plant trwy gyfrwng y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.

**5.4** Mae'r datganiad hwn yn amlinellu polisi ac arfer mewn cysylltiad ag oedolion. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu disgwyliadau clir o ran cydraddoldeb ar gyfer holl bobl Cymru. Yn hyn o beth, dylai gweithredu'r canllawiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal yn effeithiol yn lleol arwain at fwy o degwch a mynediad tecach at wasanaethau gofal ar draws Cymru. Mae'n debyg y bydd canllawiau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn y dyfodol yn annog awdurdodau i roi ystyriaeth gyflawn i faterion cydraddoldeb a defnyddio gwybodaeth mewn cysylltiad â'u poblogaethau lleol i ddatblygu strategaethau a fydd yn gwella iechyd, gofal cymdeithasol a lles eu holl drigolion lleol.

**5.5** Mae'n bwysig mai anghenion pobl sy'n llywio'r ddarpariaeth o wasanaeth, triniaeth a chymorth. Dylid seilio cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion ar asesiad unigol holistaidd. Rhaid rhoi sylw i'r pedwar ffactor allweddol hyn:

- Ymreolaeth: y rheolaeth sydd gan berson dros eu sefyllfa uniongyrchol a'r graddau y gallant wneud dewisiadau gwybodus a gweithredu arnynt.
- Iechyd a Diogelwch: gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol, cynnal iechyd cyfredol ac atal dirywiad, peryglon i iechyd, diogelwch rhag niwed (oddi wrth yr hunan neu eraill), diogelwch eraill rhag niwed a achosir gan y person (gall niwed fod yn fwriadol neu'n anfwriadol).
- Rheoli trefniadau dyddiol: gallu person i ofalu am un ai ei ofal personol, anghenion domestig a threfniadau dyddiol eraill ei hun neu aelodau teulu sy'n ddibynnol neu eraill agos atynt.
- Cynnwys: mewn gwaith, addysg a dysgu, bywyd teulu a rhwydweithiau cymdeithasol, gan gynnwys cydnabod rolau cymdeithasol a chyfrifoldebau fel rhianta a gofalu.

**5.6** O dan y canllawiau Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal, nid yw'r ffaith y gall fod gan oedolyn anabledd dysgu'n ddigon ynddo'i hun i bennu a ddylai unigolyn dderbyn gwasanaethau. Yn hytrach yr effaith ar annibyniaeth unigolyn fydd yn pennu a yw anghenion yn bodoli sy'n galw am ddarparu gwasanaethau a natur gwasanaethau felly.

**5.7** Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu arweiniad ar gynllunio gwasanaethau ar gyfer oedolion a phobl hŷn ag anabled dysgu trwy gyfrwng ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Yn ychwanegol at hyn, bydd y Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn gofyn am ddull strategol ar y cyd bwrdd iechyd lleol ac awdurdod lleol o weithredu i ymdrin ag iechyd a lles poblogaeth eu hardal leol. Mae angen sicrhau hefyd fod cysylltiadau clir rhwng y Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a strategaethau cymunedol lleol eraill.

**5.8** Mae'n bwysig fod datblygiad gwasanaethau lleol a chymorth i oedolion ag anabledd dysgu'n rhoi ystyriaeth hefyd i'r Adolygiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Adroddiad Wanless), y Strategaeth Gofalwyr, Cefnogi Pobl, Hyrwyddo Partneriaeth mewn Gofal; Creu'r Cysylltiadau a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad perthnasol eraill. Bydd angen rhoi ystyriaeth i fynd i'r afael ag anghenion pobl ag anableddau dysgu hefyd wrth ddatblygu agendau cymunedol ehangach sy'n berthnasol i holl ddinasyddion Cymru.

**5.9** Atgyfnerthir dull o'r fath yng Nghynllun Oes Llywodraeth y Cynulliad: Creu Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r Radd Flaenaf i Gymru yn yr 21ain Ganrif. Mae Cynllun Oes yn hyrwyddo:

- darparu gwasanaethau a chymorth i bobl gartref, neu mor agos i gartref ag sy'n ddiogel bosibl
- canolbwyntio ar helpu pawb i gyflawni'r lefel uchaf o annibyniaeth a photensial personol
- gwasanaethau sy'n hawdd eu cael, yn gyflym, yn ddiogel ac yn effeithiol, yn syml i'w deall, yn hawdd i'w defnyddio ac ymateb i anghenion cyfnewidiol
- amgylcheddau gofal sy'n ddiogel, yn cynnig diogelwch priodol i blant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac yn parchu urddas pobl, a
- staff medrus sy'n darparu gwasanaethau sy'n gweithio bob tro, ond sy'n dal yn bersonol i'r unigolyn.

**5.10** Mae Cynllun Oes yn canolbwyntio ar dair egwyddor sylfaenol er mwyn sicrhau fod y GIG addas i'r diben:

- gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr
- sicrhau'r gorau o'r adnoddau, a
- thargedu gwella perfformiad parhaus.

**5.11** Yn ystod 2005, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad eu Safonau Gofal Iechyd ar gyfer Cymru. Eu nod yw datblygu ymhellach ofal iechyd diogel o ansawdd uchel ar gyfer pob claf yng Nghymru; i wella profiad y claf ac i osod cleifion yng nghanol cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae 32 o Safonau'n ymdrin â phrofiad y claf; canlyniadau clinigol; llywodraethu gofal iechyd ac iechyd y cyhoedd.

**5.12** Yn ei strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol dros y degawd nesaf a amlinellir yn Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi ei weledigaeth o wasanaethau cymdeithasol:

> "sy'n gryf, hygyrch ac atebol, yn gyfarwydd ag anghenion dinasyddion a chymunedau ac yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, hawliau dinasyddion a chanlyniadau da."

**5.13** Bydd y weledigaeth hon o wasanaethau cymdeithasol yn cael ei chyflwyno mewn modd cydgysylltiedig, hyblyg ac effeithlon, mewn partneriaeth gyda'r defnyddiwr gwasanaeth ac i safonau cyson uchel ar draws Cymru. Mae hyn yn llwyr gyd-fynd â gweledigaeth ac egwyddorion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pobl ag anabledd dysgu fel y nodwyd yn gynharach yn adran 2 ac yn eu hatgyfnerthu.

**5.14** Mae Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol hefyd yn amlinellu'r egwyddorion y dylai gwasanaethau gael eu teilwra gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u hanghenion. Bydd angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid:

- "symleiddio'r broses mynediad ac asesu, datblygu hunangyfeirio a hunanasesu
- sicrhau mynediad priodol tu allan i'r oriau arferol
- datblygu gwasanaethau a fydd yn rhoi llais go iawn i bobl ynghylch pa bryd a sut y cyflwynir y gwasanaethau
- cyflwyno gwasanaethau gofal sy'n canolbwyntio ar y person, gan ddangos parch ac urddas tuag at yr unigolyn a heb oddef camdriniaeth
- darparu gwell gwybodaeth i ofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau
- sicrhau fod gweithio ar y cyd yn fwy effeithiol gyda'r holl bartneriaid a rhoi ymrwymiad gwirioneddol i ymdrin â'r rhwystrau i gydweithredu'n well
- cynyddu'n sylweddol y lefelau comisiynu ar y cyd ag adrannau iechyd a gwasanaethau eraill
- dylanwadu ar wasanaethau a'u datblygu i sicrhau eu bod yn darparu mwy o ddiogelwch maetheg a bwyd i ddefnyddwyr a gofalwyr
- datblygu dulliau cliriach sy'n seiliedig ar ganlyniadau o safbwynt cynllunio gofal
- cydnabod ein bod oll yn derbyn risg fel rhan o'n bywydau bob dydd a galluogi penderfyniadau mwy cyffredin a gwybodus i gael eu gwneud am reoli risgiau
- cael systemau cywiro a chwyno syml a chlir."

**5.15** Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i bob dinasyddion ond maent yn arbennig o berthnasol i bobl ag anabledd dysgu gan eu bod yn adlewyrchu llawer o'r nodau a'r uchelgeisiau y bu gweithio tuag atynt dros lawer o flynyddoedd.

# 6. Rhoi Pobl yn Gyntaf: Cynllunio Person-ganolog, Gwybodaeth Hygyrch ac Eiriolaeth

**6.1** Mae'r ffaith mai defnyddwyr gwasanaethau a'u hanghenion ddylai ffurfio gwasanaethau lleol yn gwbl ganolog i ddull strategol Llywodraeth y Cynulliad o weithredu. Mae dulliau cynllunio unigol yn sylfaenol er mwyn cyflawni'r nod hwn ac i sefydlu dull cydweithredol o weithredu rhwng oedolion ag anabledd dysgu, eu teulu a'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â rhoi cymorth. Cafodd y disgwyliad hwn ei ddatgan o'r newydd yng Nghanllawiau 1994:

> "Dylai pawb sy'n dymuno hynny, gael 'Cynllun Unigol' yn cydlynu gofal trwy eu bywyd ac yn adlewyrchu eu hanghenion a'u dewisiadau'n briodol. Rhaid i bawb cysylltiedig gydweithio'n agos i ddarparu parhad mewn cynllunio, gan sichrau nad oes unrhyw newidiadau sydyn wrth i unigolion symud o un asiantaeth gofal i un arall."

**6.2** Cydnabyddir y dylid dechrau cynllunio'r cyfnod pontio yn ystod plentyndod a pharhau trwy'r cyfnodau pontio niferus sy'n dod i ran pobl trwy gydol bywyd. Gall cynllunio a darpariaeth annigonol yn ystod plentyndod gael canlyniadau niweidiol nid yn unig i'r unigolyn ond hefyd o ran lefel y cymorth gwasanaeth fydd ei angen drwy gydol y blynyddoedd fel oedolyn. Dywed Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru Llywodraeth y Cynulliad, y dylai'r dasg o gynllunio i unigolyn bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion gychwyn yn y flwyddyn cyn ei ben blwyddyn 14 oed ac y dylid penodi gweithiwr pontio allweddol ar gyfer pob plentyn 14 oed. Bydd gweithwyr pontio allweddol fel hyn yn cydlynu'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyn, yn ystod ac ar ôl y broses bontio.

**6.3** Mae'r un mor bwysig caniatáu digon o amser i gynllunio pontio'n effeithiol ar gyfer digwyddiadau bywyd eraill fel unigolyn yn symud o gartref y teulu i fyw yn annibynnol. Mae'r cyfnod pontio o ganol oed i henaint, a dod â mecanweithiau at ei gilydd i adolygu a chomisiynu gwasanaeth a chymorth i bobl hŷn ag anableddau dysgu'n fwyfwy perthnasol hefyd wrth i bobl ag anableddau dysgu fyw yn hirach.

**6.4** Mae canllawiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion Llywodraeth y Cynulliad: Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal, yn sefydlu prosesau ar gyfer pennu meini prawf cymhwyso. Ceir cymorth pellach i wneud hyn trwy ganllawiau AGCC penodol, Asesiadau Person-ganolog o fewn y Prosesau Asesu Statudol, a gynhyrchir ar gyfer pobl ag anabledd dysgu sydd wedi'u hintegreiddio'n ffurfiol fel atodiad 11 i'r canllawiau Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal.

**6.5** Mae gwybodaeth glir, gyfredol a hygyrch i unigolion ag anabledd dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr yn bwysig os ydynt am gymryd rhan lawn mewn gwneud penderfyniadau. Mae darparu gwybodaeth yn rhoi grym i unigolion wneud penderfyniadau gwybodus, i allu gwneud dewis ac ymarfer eu hawliau. Rhaid i awdurdodau lleol, BILl/Ymddiriedolaethau GIG a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau sicrhau fod defnyddwyr a gofalwyr yn gallu cael gafael yn brydlon ar wybodaeth gynhwysfawr, glir, briodol a defnyddiol, mewn sawl iaith a fformat. Dylid cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth craidd yn Gymraeg a Saesneg ond mae'n bosibl y bydd angen eu cynhyrchu mewn ieithoedd eraill hefyd ac adlewyrchu cyfansoddiad demograffig yr ardal.

**6.6** Mae cymunedau ethnig lleiafrifol yn aml yn wynebu anghydraddoldebau sylweddol a gwahaniaethu mewn gwaith, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae cymunedau'n felly'n tueddu i ddefnyddio llai ar wasanaethau. Bydd hyfforddiant i wella cymhwysedd mewn ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cydweithio gyda grwpiau cymunedol, staff dwyieithog a gwybodaeth hygyrch, cydnabod rhwydweithiau cymorth cymunedol a theilwra gwasanaethau cymorth ar gyfer anghenion o fewn diwylliannau penodol yn helpu i leihau anghydraddoldebau.

**6.7** Bydd llawer o bobl ag anabledd dysgu angen cymorth i'w helpu i roi gwybod beth yw eu barn ac mae rôl bwysig i eiriolaeth mewn sefyllfaoedd felly. Ond wrth symud ymlaen yn y ffordd hon, rhaid i awdurdodau, darparwyr gwasanaeth, eiriolwyr a theuluoedd/gofalwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

**6.8** Dylai awdurdodau statudol a sefydliadau anstatudol eraill sy'n darparu gwasanaethau sicrhau ystod briodol o wasanaethau eiriolaeth ar gael i roi llais i unigolion er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'w barn. Mae rhoi grym i unigolion fel eu bod yn gallu chwarae rhan lawn mewn penderfyniadau ynghylch eu bywydau sy'n effeithio arnynt, yn elfen allweddol o ddull strategol Llywodraeth y Cynulliad o weithredu.

**6.9** Mae awdurdodau ar draws Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran hyrwyddo neu ddatblygu dulliau cynllunio unigol a darparu gwybodaeth ac eiriolaeth. Mae cynnal y gwelliannau hyn a pharhau i adeiladau ar y sylfeini hyn yn bwysig o hyd. Mae Canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar Egwyddorion Gwasanaeth ac Ymatebion Gwasanaeth i Oedolion a Phobl Hŷn ag Anabledd Dysgu'n dal i roi arweiniad i awdurdodau ar y materion hyn.

# 7. Byw Bywyd Cyffredin

**7.1** Er i'r strategaeth ddechrau yn 1983, mae'r Swyddfa Gymreig fel yr oedd ar y pryd a Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio sicrhau bod cymorth cynhwysfawr ar gyfer pobl ag anableddau dysgu'n cael ei ddatblygu'n lleol. Mae hyn yn cynnwys:

- Darparu amrywiaeth o opsiynau tai gyda gwahanol lefelau o gymorth i alluogi oedolion i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau lleol fel y maent hwy a'u teuluoedd yn dymuno.
- Darparu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer gwaith, paratoi at waith a chyflogaeth adeiladol.
- Datblygu cyfleoedd hamdden a chymdeithasol cynhwysol a chynnwys y cyhoedd yn well ym mhryderon a bywydau pobl ag anableddau dysgu.
- Mynediad heb wahaniaethu at y gwasanaethau generig sydd ar gael i weddill y boblogaeth (gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, tai, cyngor gyrfaoedd a mathau eraill o gyngor dinasyddion).

**7.2** Roedd Canllawiau Diwygiedig 1994 yn cynnwys nifer o amcanion clir:

- Darparu ystod o lety fel bod pobl ag anableddau dysgu'n cael gymaint o ryddid ag unrhyw un arall i ddewis ble maent yn byw a gyda phwy y maent yn byw, a lefel o gymorth sy'n eu galluogi i barhau i fyw yn y gymuned.
- Helpu i gael swydd go iawn i'r rhan fwyaf o unigolion a chymorth iddynt barhau i'w chadw - dylai pob oedolyn sy'n gallu gweithio gael y cyfle o waith cyflogedig ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r gymuned.
- Help a chymorth i ddod yn rhan o'r gymuned a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ymhlith pobl eraill.
- Mynediad at yr un gofal iechyd ag eraill sy'n byw yn y gymuned, gyda chymorth ychwanegol i gwrdd ag anghenion iechyd arbennig.

**7.3** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gefnogi'r nodau ac amcanion hyn. Mae unigolion ag anableddau dysgu'n ddinasyddion a dylent gyfrannu at fywyd eu cymunedau lleol, cael cyfleoedd i elwa o'u cymunedau a chael eu gweld mewn golau cadarnhaol.

## Byw yn y Gymuned

**7.4** Mae byw cymunedol yn ymestyn i bob oed, er y gall anghenion llety newid yn nodweddiadol ar draws hyd oes unigolyn. Er hynny, cred Llywodraeth y Cynulliad ei fod yn fwy na dim ond mater o awdurdod yn ceisio rhoi sylw i ofynion llety corfforol unigolyn (gan dderbyn fod y rhain yn bwysig iawn), rhaid i awdurdod hefyd roi ystyriaeth i hyrwyddo annibyniaeth, dinasyddiaeth, perthnasoedd a ffyrdd o fyw.

**7.5** Wrth roi sylw i'r gwahanol elfennau hyn, bydd angen i awdurdodau barhau i adolygu gofynion cymorth a gwasanaeth gan y bydd gofynion unigolyn yn newid dros amser fel arfer gan gynnwys, er enghraifft, pan ddaw unigolyn ag anabledd dysgu yn rhiant. Ym marn Llywodraeth y Cynulliad nod awdurdod ddylai fod i bobl ag anableddau dysgu gael cyfle gwirioneddol i fyw fel eraill o'r un oed â hwy a chwarae rhan lawn yn y gymdeithas y maent yn byw ynddi. Mae angen i wasanaethau Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Addysg, Tai, Cludiant a sefydliadau sy'n darparu weithio'n effeithiol gyda'i gilydd, o ran cynllunio a darpariaeth o ddydd i ddydd, i roi'r cyfleoedd a'r cymorth sydd eu hangen i unigolion ddilyn eu dewisiadau o ran ffordd o fyw sy'n mwyhau eu lles a'u datblygiad personol.

**7.6** Bydd angen i asiantaethau statudol hefyd weithio gyda phartneriaid sector annibynnol a gwirfoddol gan gynnwys sefydliadau'n cynrychioli pobl ag anableddau dysgu neu eu teuluoedd i drwytho cymunedau i werthfawrogi a chynorthwyo aelodau o'r gymuned ag anableddau. Mae'n bwysig datblygu agweddau cymunedol cadarnhaol tuag at bob math o anabledd. Mae sicrhau bod pobl ag anableddau'n cael eu portreadu'n gadarnhaol ac yn cael eu cynorthwyo i ddal rolau gwerthfawr, fel gweithiwr neu ffrind, yn helpu i daro'n ôl yn erbyn argraffiadau negyddol a'r stigma sy'n dal i fod yn gysylltiedig â phobl sy'n cael eu gweld fel pobl wahanol.

**7.7** Wrth wneud hynny, mae'n bwysig wrth gwrs nad yw gwasanaethau a ddarperir i helpu pobl ag anableddau dysgu i ddod yn aelodau mwy derbyniol o'r gymuned a byw bywydau mwy cyflawn, yn parhau canfyddiadau negyddol o bobl ag anabledd eu hunain. Dylid gwneud popeth i sicrhau fod pobl yn cael eu cynrychioli fel dinasyddion cyflawn gyda hawliau a disgwyliadau sy'n nodweddiadol i eraill o'r un oedran. Gall gwarchod yn ormodol fod yr un mor niweidiol i ansawdd bywyd pobl a gwarchod rhy ychydig. Mae angen cymryd gofal wrth gyfeirio at anghenion gwirioneddol pobl am arweiniad, cymorth a thriniaeth arbennig i osgoi'r argraff nad yw unigolion yn abl i wneud dewis a rheoli, neu wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

**7.8** Dylai'r egwyddorion a nodwyd yng ngweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pobl ag anableddau dysgu gael eu cymhwyso i bob maes gweithgaredd y bydd cyrff sector annibynnol a gwirfoddol, statudol yn ymgymryd â hwy fel ei gilydd. Os yw'r egwyddorion am ddod yn rhan o'r diwylliant o ddydd i ddydd, mae'n bwysig eu rhoi ar waith ymhob agwedd o gyflwyno gwasanaeth, waeth ba mor fach. Dylid manteisio ar bob cyfle i gynnwys ac annog ffyrdd y gall yr unigolyn gyfrannu i'r gymuned. Wrth gynyddu hunan-barch - trwy helpu pobl i ennill parch a chael eu gweld fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas - caiff yr anabledd ei leihau.

**7.9** Mae mynediad corfforol at amwynderau a gwasanaethau cymunedol, a threfniadau amgylcheddol sy'n hwyluso rhwyddineb symud a thrafnidiaeth o fewn y gymuned, yn hanfodol bwysig i bobl ag anableddau. Mae cyfrifoldeb ar adrannau cynllunio awdurdodau lleol a sefydliadau GIG i sicrhau fod yr amgylchedd adeiledig yn ystyriol o'r anabl. Dylai polisïau trafnidiaeth lleol hefyd ystyried anghenion pobl ag anableddau.

**7.10** O hynny ymlaen, mae byw yn llwyddiannus yn y gymuned yn golygu fod angen i ystod o wasanaethau cymunedol a chymorth fod ar gael sy'n sensitif i anghenion, dewisiadau a'r ffyrdd o fyw a ddymunir gan bobl ag anableddau dysgu. Dylid datblygu llety, er enghraifft, yn unol â dewisiadau unigolion a'r hyn sydd orau ganddynt a chynnig yr un hawliau i unigolion ag sydd ar gael i eraill gan gynnwys tenantiaethau. Dylid gwneud trefniadau i hwyluso unigolion i gynnal perthynas gyda'u teuluoedd a'r rhwydweithiau cymunedol a gweithgareddau bywyd cymunedol ehangach y maent yn eu gwerthfawrogi yn hytrach na'u rhwystro rhag gwneud hynny.

**7.11** Mae amrywiadau mawr o ran yr anawsterau y mae pobl ag anableddau dysgu'n dod ar eu traws wrth ddatblygu annibyniaeth, rheoli a chymryd rhan lawn mewn gweithgareddau byw bob dydd. Dylai awdurdodau gynllunio i unigolion dderbyn cymorth ychwanegol cymwys lle bo angen er mwyn cynnal ffordd o fyw foddhaol yn y gymuned. Gwnaed cryn gynnydd gan awdurdodau yn ystod y blynyddoedd diweddar wrth asesu natur anawsterau unigol pobl a theilwra eu dull o weithredu a'u cymorth i fod y mwyaf effeithiol posibl. Dylai awdurdodau ailasesu eu cytundebau darparwr gwasanaeth ac/neu eu darpariaeth gwasanaeth uniongyrchol eu hunain er mwyn sicrhau fod gweithlu cymwys ar gael ac yn abl i sicrhau arfer gorau. Mae'n bosibl y bydd angen darparu cymorth ychwanegol a phriodol o'r fath yn hyblyg ac iddo fod ar gael pan fo fwyaf o angen amdano yn hytrach na phan mae'n haws i sefydliadau darparu ei gyflenwi.

**7.12** Mae cynllun Taliadau Uniongyrchol Llywodraeth y Cynulliad, cytundebu gwasanaethau'n uniongyrchol ynghyd â chynlluniau cymorth lleol cysylltiedig, yn rhoi'r cyfle i unigolion gydweddu eu trefniadau cymorth a gofal yn well a'u hamgylchiadau arbennig. Diben Taliadau Uniongyrchol yw rhoi mwy o reolaeth i'r rhai sy'n eu derbyn dros eu bywyd eu hunain, trwy allu cytundebu'n uniongyrchol wasanaethau sy'n cynyddu cyfleoedd am annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol a mwy o hunan-barch. Mae Canllawiau Polisi ac Arferion ar Daliadau Uniongyrchol Cymru 2004 Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fonitro gweithredu'r cynlluniau peilot Cyllidebau Unigol yn Lloegr ac yn adolygu'r cyfle am fathau eraill o gyllidebau unigol yng ngoleuni tystiolaeth o'r cynlluniau peilot hyn yn Lloegr.

**7.13** Mae deddfwriaeth anabledd a deddfwriaeth gwahaniaethu arall yn rhoi gwahanol ddyletswyddau ar awdurdodau a darparwyr gwasanaethau. Dylai pob sefydliad o'r fath geisio'i orau i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl ag anableddau dysgu gan fod hyn yn hollbwysig i hyrwyddo cynhwysiant i'r gymuned ehangach. Mae'n hanfodol bod pobl ag anableddau dysgu'n cael eu dangos mewn goleuni ffafriol a bod yr egwyddorion a nodir yn y ddogfen hon yn cael eu hyrwyddo'n ymarferol mewn busnes o ddydd i ddydd.

**7.14** Mae cynnig cymorth i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymunedol ac i ffurfio perthnasoedd personol yr un mor bwysig â chefnogi agweddau eraill ar eu bywydau. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ochr yn ochr â phobl nad ydynt yn anabl yn arbennig o bwysig i bobl ag anableddau dysgu os ydynt am gael cyfleoedd i ffurfio sawl cyfeillgarwch parhaol at ei gilydd ymhlith y boblogaeth gyffredinol. Dylai awdurdodau hyrwyddo polisïau anwahaniaethol ar fynediad at gyfleusterau ac amwynderau sy'n agored i'r cyhoedd.

**7.15** Mae angen i bobl ag anableddau dysgu gael mynediad hefyd at wahanol fathau o gyfleoedd dysgu gydol oes yn amrywio o ddysgu/cymorth anffurfiol mewn sgiliau bob dydd i gyrsiau coleg wedi'u trefnu ar destunau o'u dewis hwy eu hunain. Mae profiad dros yr ugain mlynedd diwethaf wedi dangos nad y gwahanu a orfodid gan yr hen fathau o ofal mewn sefydliadau oedd yr unig rwystr i bobl ag anableddau wneud ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol fel pobl gydradd. Mae ymestyn rhwydweithiau cymdeithasol unigolion a'u gweithgareddau cymdeithasol a hamdden yn y gymuned yn parhau i fod yn amcan heriol sy'n gofyn am ddull rhagweithiol o weithredu, nid yn unig o fewn cynllun

gofal pob unigolyn ond ar lefel strategol ehangach hefyd ar draws yr ystod lawn o gyfrifoldebau awdurdod.

**7.16** Dylai awdurdodau gydnabod y gallai agweddau ar anabledd rhai unigolion neu gyflyrau cysylltiedig beri ei bod yn fwy anodd iddynt ddatblygu ffyrdd o fyw llawn ac amrywiol nodweddiadol gan ddefnyddio dim ond cyfleusterau sydd ar gael yn gyffredin. Mae unigolion ag anghenion cymhleth a heriol yn cyflwyno sialensiau arbennig i awdurdodau, ond dylent hwythau hefyd gael y dewis o fyw mewn tŷ cyffredin a chael mynediad at gyfleusterau cymunedol. Mae'n bosibl y bydd angen trefniadau arbennig mewn rhai sefyllfaoedd i reoli'r risgiau posibl y gallai unigolion eu peri iddynt hwy eu hunain ac eraill. Mae cael cymorth staff cymwys yn agwedd hollbwysig o ran ansawdd darpariaeth.

**7.17** Bydd sefyllfaoedd hefyd, yn arbennig ar adegau o argyfwng, lle bydd angen ymyriadau tymor byr neu dymor hirach na chawsant eu cynllunio, ac mae'n hanfodol fod yr hyblygrwydd gan awdurdodau i ymateb yn briodol mewn modd prydlon i'r sefyllfaoedd hyn. Canlyniad llwyddiannus ymyriadau felly fydd gweld yr unigolyn yn dychwelyd ac/neu yn cael ei gynnal i fyw yn y gymuned.

**7.18** Mae Canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar Egwyddorion Gwasanaeth ac Ymatebion Gwasanaeth i Oedolion a Phobl Hŷn ag Anabledd Dysgu'n parhau i roi arweiniad mwy manwl i awdurdodau ar y materion hyn.

## Cyflogaeth a Gwasanaethau Dydd

**7.19** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu ei bod yn bwysig bod awdurdodau'n ceisio mwyhau potensial unigolyn i gael gweithio'n gyflogedig neu mewn modd adeiladol. Cyn oed ymddeol, dylai pobl ag anabledd dysgu gael mynediad cyfartal i gynlluniau hyfforddi'r llywodraeth neu gynlluniau eraill a chyfleoedd dysgu gydol oes neu addysgiadol eraill ble gallai cynlluniau o'r fath helpu eu datblygiad personol neu ragolygon gyrfa ac, yn arbennig, eu helpu i gael gwaith.

**7.20** Rhaid i gynlluniau felly ddod yn fwy medrus o ran gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu er mwyn gallu eu cynorthwyo'n fwy effeithiol i gyflawni canlyniadau hyfforddiant a gwaith cydnabyddedig. Rhaid ystyried cyfleoedd cyflogaeth, a chyfleoedd addysg bellach allai arwain at gyflogaeth, fel rhan o brosesau cynllunio unigol neu bontio'r person. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r prosesau hyn gynnwys, fel y bo'n briodol, y coleg unigol, Gyrfa Cymru:

y Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant, neu'r Gwasanaeth Cyflogi/Canolfan Byd Gwaith.

**7.21** Gwelwyd bod modelau gwasanaeth fel cyflogaeth dan gymorth[2] sy'n cael swyddi i bobl ac wedyn yn eu hyfforddi ar y safle'n fwy effeithiol na hyfforddiant cyflogaeth traddodiadol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu mwy difrifol ac ar gyfer y rheini ag anghenion cymhleth neu heriol. Dangoswyd bod cyflogaeth dan gymorth yn ymestyn y rhychwant oedolion sy'n gallu cael swydd a'i chadw ac mae rôl bwysig i hyn felly mewn cwrdd â'r amcan yng Nghanllawiau Diwygiedig 1994 o helpu'r rhan fwyaf o oedolion i gael swydd go iawn. Mae ceiswyr swyddi wedi'u hyfforddi'n dda a hyfforddwyr swyddi ar gyfer cyflogaeth dan gymorth, ac mae'n bosibl y bydd angen hyfforddiant ychwanegol i gynorthwyo unigolion ag anghenion cymhleth a heriol yn fwy effeithiol.

**7.22** Tra bod cyflogaeth dan gymorth yn un llwybr, dylai awdurdodau hefyd ystyried llwybrau eraill i waith a gweithgareddau dydd ystyrlon eraill er mwyn darparu rhaglen gynhwysfawr o waith adeiladol i bawb. Dylai gwasanaethau dydd ddarparu gweithgareddau ystyrlon a buddiol i bobl sy'n adlewyrchu eu diddordebau ac yn datblygu eu hyder, annibyniaeth a sgiliau. Mae'n bwysig i awdurdodau ailasesu eu modelau gwasanaeth presennol yn feirniadol yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dal wedi'u ffocysu'n briodol a'u bod yn darparu'r ystod o gyflogaeth yn y gymuned a gweithgareddau adeiladol eraill.

**7.23** Wrth gyrraedd oed ymddeol, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn ei bod yr un mor bwysig i bobl ag anableddau dysgu, ag i bobl eraill debyg o ran oedran, fynd trwy gyfnod o bontio wedi'i gynllunio i henaint sy'n cadw'r perthnasoedd cadarnhaol, yr ehangder gweithgaredd adeiladol ac ymdeimlad o hunan-barch y mae unigolion wedi'u hadeiladu trwy gydol eu cyfnod fel oedolion. Dylai gwasanaethau dydd ddarparu gweithgareddau ystyrlon a buddiol i bobl sy'n adlewyrchu eu diddordebau ac yn datblygu eu hyder, annibyniaeth a sgiliau. Dylai bod mynediad at gyfleoedd dysgu gydol oes neu addysgiadol yn dal i fod ar gael.

---

2 Gwaith am dâl yw cyflogaeth dan gymorth i bobl ag anableddau dysgu (neu arall): (a) ar neu uwchlaw'r isafswm cyflog, (b) mewn unrhyw weithle lle cyflogir pobl heb anableddau, ac (c) ble caiff y person ei gynorthwyo gan unrhyw weithgareddau angenrheidiol i gynnal eu cyflogaeth. Mae'r diffiniad hwn yn pwysleisio'r egwyddor y dylai'r gwaith fod yn 'iawn', ac yn cynnwys swydd 'iawn' mewn gweithle 'iawn' nid mewn lleoliad gwaith cyn-alwedigaethol neu leoliad gwaith gwarchodol, am dâl 'iawn'. Mewn geiriau eraill, mae cyflogaeth dan gymorth yn galluogi'r bobl sy'n cael eu cynorthwyo i brofi bywyd gwaith 'iawn' yn ei holl agweddau yn uniongyrchol. Gall y cymorth sydd ei angen fod yn hirdymor, tymor canolog neu dymor byr. Gall cymorth gynnwys hyfforddiant, cymorth gwaith, cymhorthion ac addasiadau ac unrhyw fecanwaith arall i sicrhau fod y swydd yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus.

**7.24** Mae Canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar Egwyddorion Gwasanaeth ac Ymatebion Gwasanaeth i Oedolion a Phobl Hŷn ag Anabledd Dysgu'n yn parhau i roi arweiniad i awdurdodau ar y materion hyn.

## Iechyd

**7.25** Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylai pobl ag anabledd dysgu gael cydraddoldeb hawl i fynediad at wasanaethau gofal iechyd sylfaenol, eilaidd a rhaglenni sgrinio iechyd cenedlaethol arbenigol a rheolaidd ag unrhyw ddinesydd arall. Dylid coleddu Safonau Gofal Iechyd Cymru a'u cymhwyso'n gyfartal pan fo'r cleifion dan sylw yn bobl ag anabledd dysgu.

**7.26** Mae yno dystiolaeth gref bod iechyd cyffredinol pobl ag anableddau dysgu yn fwy gwael a bod ganddynt fwy o anghenion iechyd penodol mwy na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae Cynllun Oes yn disgrifio pobl ag anabledd dysgu fel "... pobl ag anghenion gofal sylweddol". Mae Bwletin Tystiolaeth Iechyd - Cymru yn nodi bod cynnydd mewn salwch mewn sawl ardal, megis problemau clyw a golwg, anawsterau iechyd meddwl ac ymddygiadol, epilepsi, anhwylderau thyroid, anhwylder y galon a phroblemau deintyddol. Efallai y bydd patrymau iechyd penodol hefyd yn codi yn sgil achosion gwybyddus anabledd dysgu. Enghraifft o hyn fyddai cyfradd uchel o glefyd Alzheimer yn cychwyn yn fuan mewn unigolion â Syndrom Down.

**7.27** Fel y nodwyd eisoes yn y ddogfen hon, mae pobl ag anableddau dysgu yn byw'n hirach, sy'n golygu y bydd mwy hefyd yn datblygu problemau iechyd sy'n gysylltiedig â mynd yn hŷn, yn cynnwys rhai sy'n derfynol eu natur megis dementia neu rai mathau o ganser. Felly bydd mwy o bobl ag anableddau dysgu, yn profi cyfnod hir o farw mewn henaint lle bydd angen o bosib am gefnogaeth a chyngor arbennig gan wasanaethau gofal lliniarol.

**7.28** Fel yr amlygodd ymchwiliad ffurfiol y Comisiwn Hawliau Anabledd i anghydraddoldebau iechyd (Triniaeth Gyfartal:Cau'r Bwlch 2006), er gwaethaf cynnydd mewn anghenion iechyd, mae pobl ag anableddau dysgu yn wynebu anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd, yn cynnwys gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau sgrinio iechyd rheolaidd, ac nid ydynt bob tro yn derbyn y ddarpariaeth iechyd sydd ei hangen arnynt. Efallai nad yw cyflyrau meddygol cyffredin y gellir eu trin yn cael eu hadnabod, yn enwedig os yw'r

unigolyn yn cael trafferth cyfathrebu'r symptomau, ac os nad oes gan ofalwyr a gweithwyr proffesiynol iechyd y profiad neu'r hyfforddiant i adnabod anghenion iechyd. Fe all problemau ddeillio o'r canlynol:

- Diffyg gwybodaeth hwylus ynghylch hybu iechyd i bobl ag anabledd dysgu a'u gofalwyr
- Diffyg cefnogaeth ac amser i baratoi unigolion ar gyfer ymyriadau neu ymchwiliadau hybu iechyd rheolaidd
- Anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau allai fod ar gael
- Diffyg sylw neu fethu adnabod pryderon iechyd yn llawn wrth gynllunio'n unigol
- Hyfforddiant annigonol i staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud ag anghenion pobl ag anableddau dysgu a sut i ddelio ag anawsterau a allai godi o ran cyfathrebu, mesur gallu a chaniatâd
- Diffyg gwybodaeth am faterion iechyd pobl ag anableddau dysgu ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol, gofal sylfaenol ac eilaidd, a sut i'w hadnabod ac ymdrin â hwynt
- Anawsterau i weithwyr iechyd proffesiynol oherwydd prinder amser i gynnal ymgynghoriad cymhleth mewn gofal sylfaenol ac eilaidd
- Problemau penodol mewn cyfleusterau gofal sylfaenol neu eilaidd oherwydd anawsterau cyfathrebu a diffyg cydnabyddiaeth neu 'guddio' cyflyrau eraill.

**7.29** Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylai pobl ag anableddau dysgu gael mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflyrau meddygol cyffredin a thriniadwy. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaethau hynny sicrhau eu bod yn gwneud addasiadau priodol i gynnwys anghenion pobl ag anableddau dysgu yn enwedig os yw unigolyn yn cael trafferth cyfathrebu symptomau. Fel rhan o'r broses yma, dylid adolygu'r modd y mae nyrsys cymunedol a meddygfeydd yn rhyngweithio. Dylai hyrwyddo ffordd iach o fyw, yn enwedig diet gwell ac ymarfer corff, fod yn rhan o'r ystyriaethau hyn. Dylai pobl ag anabledd dysgu sydd hefyd ag anghenion iechyd meddwl allu cael mynediad at yr ystod eang o wasanaethau iechyd meddwl arbenigol yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl lleol generig er mwyn ymdrin â'u hanghenion iechyd meddwl.

**7.30** Dylai pob unigolyn gael asesiad amlddisgyblaeth yn unol â'r Broses Asesu Unedig er mwyn adnabod a chynllunio ar gyfer ei iechyd yn ogystal â'i anghenion gofal cymdeithasol.

**7.31** Yn ystod 2006, fel rhan o gynyddu gwasanaethau lleol dan gyfarwyddyd y BILl, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad drefniant archwiliad meddygol blynyddol i bob oedolyn ag anabledd dysgu sydd ar gofrestr anabledd dysgu yr awdurdod lleol. Dylai awdurdodau annog pob unigolyn cymwys i ddefnyddio ei hawl i gael archwiliad meddygol blynyddol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Anableddau Dysgu Cymru, Prifysgol Caerdydd i fonitro canlyniadau iechyd cyhoeddus o'r archwiliadau iechyd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

# 8. Anghenion Iechyd Cymhleth

**8.1** Efallai y bydd gan bobl ag anableddau dysgu, yn enwedig rhai ag anableddau dysgu dwys, broblemau gofal iechyd cymhleth a chydgysylltiedig, sydd o bosib yn cynnwys: anableddau corfforol, problemau clyw a golwg, anawsterau cyfathrebu, epilepsi, problemau'r frest a'r galon, anawsterau llyncu, cyflyrau meddygol cronig eraill, problemau iechyd meddwl a phroblemau seicolegol.

**8.2** Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn na ddylai pobl ag anableddau dysgu fod o dan anfantais wrth gael mynediad at asesiad, triniaeth a chefnogaeth o ansawdd ar gyfer eu problemau iechyd. Yn wir, yn aml bydd arnynt angen mwy o amser, mwy o sgiliau arbenigol a mwy o adnoddau er mwyn derbyn diagnosis clir ac ymyriadau sy'n briodol a sensitif i'w hanghenion penodol hwy. Mae'n bwysig cydnabod effaith gwanychol salwch ar ansawdd bywyd unigolyn.

**8.3** Yn unol â nodau ac amcanion Cynllun Oes a Safonau Gofal Iechyd Cymru, mae'n hanfodol bod gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd, yn cynnwys gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau sgrinio iechyd, yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol i sicrhau bod pob unigolyn ag anabledd dysgu yn cael yr un mynediad at yr un safonau uchel o ofal iechyd â dinasyddion eraill. Hefyd mae angen datblygu gwasanaethau arbenigol ymhellach er mwyn:

- Darparu sgiliau iechyd arbenigol penodol lle bo'r angen, megis ym meysydd ymddygiad heriol, iechyd meddwl, epilepsi, symudedd a therapi iaith a lleferydd.
- Hwyluso cynnydd unigolyn trwy achos o ofal.
- Cefnogi ac addysgu teuluoedd a gofalwyr.
- Argymell a darparu cymhorthion ac addasiadau arbenigol a sefydlu a monitro rhaglenni triniaeth penodol sy'n hyrwyddo bywyd llawn a hir.

**8.4** Wrth gwrdd ag anghenion gofal iechyd cymhleth pobl ag anableddau dysgu, mae'n bwysig ceisio peidio cyfaddawdu ar allu unigolion i fyw bywydau arferol yn eu cymunedau lleol. Dylid hefyd annog a hwyluso pobl ag anghenion iechyd cymhleth i gael mynediad at y trefniadau archwiliad iechyd a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad (cyfeirir at baragraff 7.31 y ddogfen hon).

**8.5** Mae Arweiniad Llywodraeth y Cynulliad ar Egwyddorion Gwasanaeth ac Ymatebion Gwasanaeth ar gyfer Oedolion a Phobl Hŷn ag Anabledd Dysgu yn parhau i ddarparu arweiniad ar y materion hyn i awdurdodau.

# 9. Ymddygiad Heriol

**9.1** Defnyddiwyd nifer o dermau gwahanol i ddisgrifio aflonyddwch ymddygiad o ddwyster amrywiol ; er enghraifft: 'anhwylder ymddygiad', 'problemau ymddygiad' ac 'ymddygiad heriol'.

**9.2** Datblygwyd y term 'ymddygiad heriol' er mwyn pwysleisio'r rhyngweithiad rhwng ymddygiad unigolion a'u cyd-destun cymdeithasol ac amgylcheddol, cyflwr biolegol, repertoire ymddygiadol a hanes dysgu. Mae natur yr her a bwysleisir yn ymwneud â deall sail neu achos dros ymddygiad unigolyn er mwyn cymryd camau i helpu'r unigolyn i ymddwyn yn wahanol.

**9.3** Nid label diagnostig yw'r defnydd o'r term 'ymddygiad heriol', fel pe bai'r ymddygiad yn eiddo i'r unigolyn yn unig. Nid yw ymddygiad heriol yn gynhenid i'r unigolyn; mae'n ddisgrifiad o ryngweithiad mewn amser a lle. Fe all ymddygiad amrywio'n sylweddol mewn lleoliadau gwahanol ac ar adegau gwahanol.

**9.4** Fel rheol mae'r ymddygiadau a ddisgrifir fel heriol yn cael eu hystyried gan eraill fel ymddygiad problemus. Mae'r rhain yn cynnwys agwedd ymosodol tuag at eraill, distrywgaredd, hunan-niweidio ac ymddygiad annerbyniol. Fodd bynnag, nid yw'r graddau y bernir bod ymddygiad yn broblemus yn gyson. Nid yw ymddygiad sy'n cael ei ystyried yn heriol gan rai mewn amgylchiadau arbennig, yn cael ei weld yn yr un goleuni gan eraill mewn amgylchiadau gwahanol. Fe all derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymateb yn dda i ymddygiad heriol pan ddigwydd roi'r hyder i staff, gofalwyr ac eraill i ddelio â sefyllfa o'r fath. Dylai awdurdodau ystyried a fyddai dull hyfforddi ar y cyd sy'n cwmpasu staff iechyd a gofal cymdeithasol ac aelodau teulu/gofalwyr o fudd wrth geisio osgoi anghysonderau ymarfer.

**9.5** Mae astudiaethau wedi awgrymu bod 12% - 17% o bobl ag anableddau dysgu yn arddangos ymddygiad heriol ac o'r rhain, mae'n bosib y bydd 40% - 60% yn arddangos problemau mwy dwys. Mae'n achos sylweddol o eithrio cymdeithasol a stigma o fewn cymunedau. Efallai bod ymddygiad heriol yn arwydd o broblem waelodol megis anabledd neu salwch corfforol, salwch meddwl neu boen seicolegol, ac efallai fod yno gysylltiad rhwng ymddygiad heriol ag achosion penodol o anabledd dysgu, megis syndrom Lesch-Nyhan, neu broblemau cysylltiedig, megis anhwylder sbectrwm awtistig.

**9.6** Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylai awdurdodau ystyried a ddylai deall, asesu a rheoli ymddygiadau heriol fod yn swyddogaeth graidd timau anabledd dysgu cymunedol, lle mae gan bob disgyblaeth broffesiynol sgiliau diagnostig a thriniaeth perthnasol. Mae rheoli ymddygiadau heriol dwys a pharhaus yn gofyn am sgiliau arbenigol ychwanegol megis dadansoddi'r swyddogaethau y gall yr ymddygiad eu cyflawni, cynllunio gweithdrefnau ymyriad neu asesu a thrin problemau iechyd meddwl neu gorfforol gwaelodol.

**9.7** Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylai awdurdodau gydnabod yn llawn bod ymyriad buan yn hanfodol a chynllunio modelau cyflenwi gwasanaeth yn unol â hynny. Yn ogystal â cheisio lleihau dwysedd ac amlder yr ymddygiad, dylai awdurdodau asesu'r budd o ddarparu cyngor, hyfforddiant a chymorth i ofalwyr rheolaidd a darparwyr gwasanaeth eraill gan y byddai hynny yn eu helpu i ddatblygu sgiliau ymdopi. Mae angen ystod o wasanaethau a sgiliau therapiwtig, yn cynnwys dadansoddiad gweithrediad, dadansoddiad ymddygiad cymhwysol, cefnogaeth ymddygiad gadarnhaol, dulliau gweithredu gwybyddol-ymddygiadol a dulliau gweithredu seicotherapiwtig eraill, ac asesiad a thriniaeth seiciatrig. Dylai dulliau ymdrin ag atebion nid yn unig ar y lefel unigol ond dylid ystyried hefyd a oes angen unrhyw newidiadau ar y lefel systemig.

**9.8** Dylai ymyriadau gynnwys gweithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd mewn dadansoddi ymddygiad heriol, cynllunio gweithdrefnau ymyrryd a/neu asesu anghenion iechyd meddwl. Mae gwasanaethau seiciatrig i bobl ag anabledd dysgu yn chwarae rôl allweddol wrth asesu salwch meddwl cydamserol ac effaith posib cyflyrau niwroseiciatrig, megis epilepsi ar ymddygiad.

**9.9** Gellir darparu ymyriadau gan dimau cymorth arbenigol ymddygiad heriol neu gan weithwyr proffesiynol tîm anabledd dysgu cymunedol, a fyddai'n benodol yn cynnwys seicolegwyr, seiciatryddion, therapyddion iaith a lleferydd, nyrsys cymunedol ac arbenigwyr ymddygiad. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu mai bwriad y gwaith ddylai leihau'r ymddygiad heriol, cynllunio strategaethau rheoli, helpu gofalwyr i ddatblygu sgiliau ymdopi a gweithdrefnau ymatebol, a datblygu cynllun i hyrwyddo ansawdd bywyd a chyfranogiad cymunedol y bobl dan sylw. Gallai eu gwaith hefyd gynnwys darparu cyngor, hyfforddiant a chefnogaeth i ofalwyr rheolaidd a darparwyr gwasanaeth (gweler paragraff 9.7 uchod). Dylai awdurdodau ystyried a fyddai ymyriad cydweithredol yn cychwyn ar oed cynnar yn fuddiol. Byddai hyn yn gofyn am ddull gweithredu cydlynol yn cynnwys, er enghraifft, gwasanaethau oedolion arbenigol, gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol plant a thimau CAMHS.

**9.10** Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylai darpariaeth gwasanaeth lleol geisio sicrhau bod pobl yn aros yn eu cartrefi a'u cymunedau lleol. Lle mae'n amhosib cyflawni hyn, efallai bydd angen llety amgen dros dro a chefnogaeth breswyl nes y gallant ddychwelyd adref neu fynd i lety hirdymor newydd yn y gymuned. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog awdurdodau i adolygu priodoldeb trefniadau lle mae unigolion wedi cael eu trosglwyddo i wasanaethau y tu allan i'w hardal leol. Fe all trefniadau o'r fath greu anawsterau i deuluoedd gadw cyswllt ac i reolwyr gofal lleol fonitro safonau'r gwasanaeth a ddarperir a'r canlyniadau a gyflawnir.

**9.11** Mae yno beth tystiolaeth sy'n awgrymu y gall awdurdodau ddod i gasgliadau gwahanol ynghylch a ddylid ystyried darparu llety, cefnogaeth breswyl, gwasanaethau seibiant a gwasanaethau dydd i bobl ag ymddygiad heriol dwys fel 'gofal cymdeithasol' (a chael eu comisiynu a'u hariannu gan awdurdodau lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol) neu 'gofal iechyd' (a chael eu comisiynu a'u hariannu gan awdurdodau iechyd).

**9.12** Fe all rhaniad o'r fath rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol fod yn rhwystr rhag delio'n foddhaol ag anghenion unigolion. Dylai awdurdodau lleol a BILlau adolygu a oes angen iddynt ddatblygu modelau gwasanaeth ar y cyd newydd sy'n torri trwy'r ffiniau hyn - gan ddefnyddio'r hyblygrwydd sydd ar gael o dan Ddeddf Iechyd 1999 - wrth ymateb i'r sialensiau y mae pob gwasanaeth yn eu hwynebu. Efallai y bydd angen i ystyriaethau o'r fath gwmpasu datblygu rôl asiantaethau nad ydynt yn rhan o'r GIG wrth gyflenwi gwasanaethau ymateb mewn argyfwng, seibiant a byw â chymorth. Wrth ystyrid modelau gwasanaeth ar y cyd newydd o'r fath, bydd yn hanfodol i awdurdodau sicrhau bod cymwyseddau i weithio gydag unigolion heriol yn cael eu datblygu a'u cynnal ar draws asiantaethau a haenau gwasanaeth.

**9.13** Lle mae unigolion wedi cyflawni trosedd neu'n cael eu cyhuddo o wneud hynny, fe ddylai fod yno bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer dargyfeirio priodol o'r llys. Dylai awdurdodau ganolbwyntio ar y ffordd orau o gwrdd ag anghenion yr unigolion hyn yn effeithiol, a'u galluogi i fwynhau bywyd mor llawn â phosib yn eu cymunedau lleol gan amddiffyn diogelwch eraill ar yr un pryd. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau darpariaeth briodol i'r bobl hynny sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

# 10. Teuluoedd a Gofalwyr Eraill

**10.1** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod ac yn croesawu'r rôl y mae teuluoedd a gofalwyr di-dâl eraill yn ei chwarae wrth gefnogi pobl ag anableddau dysgu mewn ffyrdd amrywiol. Mae'n cydnabod y bydd gofalwyr yn dymuno cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phobl eraill ac ar yr un pryd yn dymuno mwyhau lles y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Felly, mae Llywodraeth y Cynulliad, trwy ei Strategaeth Gofalwyr, yn ceisio annog awdurdodau i ddarparu ystod o gefnogaeth hyblyg sy'n dal i ehangu ar gyfer gofalwyr, wedi'i gydlynu rhwng y sefydliadau perthnasol.

**10.2** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod â nifer o fesurau deddfwriaethol i rym er mwyn cefnogi gofalwyr yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys y Ddeddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau), y Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl a'r Ddeddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal). Mae gweithrediad y ddeddfwriaeth yn cefnogi egwyddorion, polisïau a gwaith y Strategaeth Gofalwyr.

**10.3** Mae Strategaeth Gofalwyr Llywodraeth y Cynulliad yn pwysleisio pwysigrwydd y canlynol i ofalwyr:

- Gwybodaeth dda - fel eu bod:
  - yn eiriolwyr gwybodus ar ran yr unigolion y maent yn gofalu amdanynt
  - yn gwybod pa wasanaethau a budd-daliadau sydd ar gael a sut i gael mynediad atynt
  - yn gallu negydu a bod yn hyderus ynghylch y gwasanaeth sydd ar gael yn ystod cyfnodau pontio yng nghylch bywyd, ac
  - yn ymwybodol o'u hawliau a'u hawliadau eu hunain.
- Cyfrannu i wneud penderfyniadau unigol a chael llais ym mhob agwedd o gynllunio strategol - fel eu bod:
  - yn dod yn bartneriaid gwirioneddol wrth ddarparu gofal i'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt
  - yn gallu cynrychioli buddiannau'r teulu, yn cynnwys buddiannau'r sawl y maent yn gofalu amdanynt
  - yn gallu monitro a dylanwadu ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, ac
  - yn gallu bod yn hyderus bod y gwasanaeth a ddarperir yn ddigonol.

- Gofal a chefnogaeth ddigonol mewn perthynas â'u hanghenion eu hunain - fel eu bod:
  - yn gallu cyfuno cyflogaeth â gofalu
  - yn gallu cael bywyd personol a chymdeithasol eu hunain, ac
  - yn gallu cynnal eu hiechyd, lles a thawelwch meddwl eu hunain.

**10.4** Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod angen gwybodaeth gyflawn ac amserol ar deuluoedd a gofalwyr ynglŷn â phob mater perthnasol. Dylai awdurdodau sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn adlewyrchu'r ystod lawn o wasanaethau i gwrdd ag anghenion unigolion, yn cynnwys rhai a ddarperir gan awdurdodau a sefydliadau eraill, ac ymgorffori manylion o'u natur, pwrpas, amcanion, athroniaeth gofal, cyfleusterau, mynediad, costau a'r bobl y maent wedi eu cynllunio ar eu cyfer. Dylai gwybodaeth o'r fath fod ar gael mewn amrediad o fformatau ac ieithoedd.

**10.5** Un o'r pethau sydd bwysicaf i ofalwyr yw gallu cyfrannu i'r broses o wneud penderfyniadau unigol wrth ymyl y sawl y maent yn gofalu amdanynt. Pwysleisir y rôl yma mewn deddfwriaeth, arweiniad a chyfraith achosion. Dywed Arweiniad Diwygiedig 1994:

> "Dylid cynnwys unigolion a'u gofalwyr yn agos ym mhob cam o'r broses gynllunio unigol a rhoi blaenoriaeth, lle mae hynny'n bosib, i'w dymuniadau a'u dewisiadau".

**10.6** Felly, dylai gwybodaeth fod ar gael yn hwylus hefyd i egluro sut y gall unigolion a gofalwyr gymryd rhan yn y Broses Asesu Unedig neu broses cynllunio unigol arall, beth sy'n digwydd yn y broses asesu a rheoli gofal, amseriad perthnasol, meini prawf cymhwyso a weithredir yng nghyswllt gwasanaethau a thaliadau uniongyrchol. Mae angen i deuluoedd a gofalwyr hefyd wybod am rôl y gall unigolion a gofalwyr ei chwarae ym mhob agwedd o gynllunio strategol. Mae gwybodaeth gyffelyb ynghylch asesiadau gofalwyr hefyd yn hanfodol.

**10.7** Yn ei strategaethau Anabledd Dysgu a Gofalwyr, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi y dylai gofalwyr, ynghyd â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill chwarae rôl bwysig ym mhob agwedd o gynllunio strategol, yn cynnwys cynllunio gwasanaethau, polisïau a gweithdrefnau, datblygu, monitro a gwerthuso gwasanaeth. Y nod cyffredinol yw gwneud y mwyaf o botensial pobl ag anableddau dysgu a sicrhau bod yr ystod o wasanaethau yn dod yn fwy helaeth ac yn abl i gwrdd yn fwy hyblyg a'u hanghenion a'u dymuniadau. Mae angen i ofalwyr, yn ogystal â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill, gael hyder mewn gwasanaethau.

**10.8** Mae gan ofalwyr hawl nid yn unig i'w hystyried wrth asesu anghenion aelodau o'u teulu y maent yn gofalu amdanynt, ond hefyd i asesiad ar wahân o'u hanghenion eu hunain er mwyn gwella eu bywyd, iechyd a lles eu hunain. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod gan awdurdodau bellach ddyletswydd i hysbysu gofalwyr o'u hawl i asesiad. Lle digwydd asesiadau o'r fath, mae'n annog awdurdodau i fabwysiadu dulliau gweithredu i sicrhau bod gofalwyr yn dod â'u hanghenion eu hunain gerbron yn hytrach na rhai yr aelod o'u teulu.

**10.9** Mae awdurdodau wedi darparu amrediad o gefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr o dan y strategaethau anabledd dysgu a gofalwyr, yn cynnwys cymorth yn y cartref trwy ddarparu gweithwyr cymorth cartref neu gymorthyddion teulu, gwasanaethau a threfniadau eistedd i mewn arbenigol i roi toriad i ofalwyr o'u rôl gofalu. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod nad yw teuluoedd a gofalwyr am weld eu rôl gofalu fel baich y mae angen iddynt gael saib oddi wrtho. Yn hytrach, dylid rhoi pwyslais ar alluogi gofalwyr i gyflawni dyheadau personol eraill megis cael gyrfa, dilyn diddordebau addysgol neu ddiddordebau eraill neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol gyda ffrindiau, cydweithwyr a chymdogion.

**10.10** Mae yna oblygiadau i awdurdodau wrth fabwysiadu dull o'r fath wrth ystyried natur, amseriad, hyd a rheoleidd-dra cymorth i ofalwyr. Mae'n rhaid i gefnogaeth i ofalwyr ddilyn gweithgareddau addysgol neu hamdden a chynnal eu rhwydweithiau cyfeillion eu hunain fod ar gael ar yr adegau y mae gweithgareddau felly fel arfer yn cael eu cynnal a bod o hyd digonol i fod o fudd.

**10.11** Yn yr un modd, pan fo aelod o'r teulu sydd ag anabledd yn treulio amser i ffwrdd o'r teulu gyda'r hwyr neu ar benwythnosau dylid meddwl am hynny fel cyfle cadarnhaol i ehangu ansawdd bywyd yr unigolyn hynny, ac nid yn unig fel modd o roi saib i'r gofalwyr teuluol.

# 11. Cynllunio Strategol

**11.1** Er bod llawer eisoes wedi'i gyflawni o dan Strategaeth Anfantais Feddyliol Cymru Gyfan, mae yna ganfyddiad yn parhau o anghydraddoldeb yn y gwasanaethau sydd ar gael ar draws awdurdodau lleol am resymau ar wahân i amrywiaeth yn y galw. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod angen i awdurdodau barhau i adolygu eu darpariaeth gwasanaeth anableddau dysgu mewn modd systematig a beirniadol er mwyn:

- datblygu ymhellach y gwasanaethau a'r cymorth arall sydd ar gael fel bod nifer cynyddol o bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yng Nghymru yn profi nodau ac amcanion y Strategaeth, gan leihau'r gwahaniaethau daearyddol yn y ddarpariaeth, a hefyd,
- parhau i fireinio monitro a gwerthuso ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a'r canlyniadau a gyflawnir i sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu defnyddio yn y modd gorau a bod anghenion unigolion yn cael eu diwallu.

## 12. Gweithio Gyda'n Gilydd

**12.1** Mae profiad yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf yn dangos bod modd cyflawni gweithio ar y cyd da ac effeithiol rhwng awdurdodau a sefydliadau eraill. Mae Awdurdodau Lleol ac asiantaethau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd a chyda phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd/gofalwyr, mudiadau gwirfoddol ac asiantaethau eraill wrth gomisiynu, cynllunio, monitro a gwerthuso gwasanaethau yn arwain at wneud penderfyniadau sy'n cyfarfod orau ag anghenion lleol.

**12.2** Roedd Strategaeth Anfantais Feddyliol Cymru Gyfan 1983 a Chanllawiau Diwygiedig 1994 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu cynllunio strategol mewn partneriaeth â rhanddeiliad lleol. Yn dilyn ad-drefnu awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd mewn blynyddoedd diweddar cafwyd canfyddiad bod effeithiolrwydd trefniadau gweithio ar y cyd ar draws Cymru wedi bod yn anghyson. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn ei bod yn hanfodol i bobl ag anabledd dysgu, eu gofalwyr a rhanddeiliaid eraill fod yn gyfranogwyr a chyfranwyr gweithredol a chydradd ym mhob proses cynllunio, datblygu, monitro a gwerthuso gwasanaeth. Mae angen i bob rhanddeiliad fod yn ymrwymedig i'r broses er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o weithio ar y cyd.

**12.3** Trwy weithio ar y cyd effeithiol, fe ddylai pobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr a rhanddeiliaid eraill allu cyfrannu at lunio, cyflenwi a datblygu gwasanaethau yn eu hardal leol yn y dyfodol (a chael hyder yn y gwasanaethau hynny).

**12.4** Dylai cynllunio gwasanaeth o'r fath fod yn ymatebol i anghenion lleol, gan roi ystyriaeth i ddemograffeg yr ardal leol a gofynion tebygol y dyfodol yn ogystal â sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion unigol a nodwyd yn y broses Asesu Unedig. Mae'n rhaid i gynllunio ar gyfer cyflenwi a datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yn y dyfodol roi ystyriaeth a chael eu cynnwys mewn Strategaethau a Chynlluniau Gweithredu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Lles lleol. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i strategaethau eraill megis Cynlluniau Cymunedol o safbwynt eu perthnasedd a'r cyfleoedd y gallant eu darparu i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd.

**12.5** Wrth ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn ei bod yn bwysig i awdurdodau sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i gefnogi cynnwys a chyfranogiad pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr yn effeithiol. Bydd hyn yn cwmpasu ystyriaethau megis amseriad a lleoliad cyfarfodydd, gan sicrhau mynediad prydlon i wybodaeth mewn ffurf hwylus a rheoli'r dull o gynnal cyfarfodydd er mwyn sicrhau cyfranogiad.

# 13. Cynllunio Gweithlu

**13.1** Yn ei dogfen Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, sy'n gosod cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod yn llawn bod gwasanaethau ond cystal â'r bobl sy'n gweithio ynddynt. Mae'r ddogfen hefyd yn mynd ymlaen i nodi:

- bod yr angen gwasanaethau cymdeithasol mwy personol ac ymatebol yn gofyn am bobl sydd â'r nodweddion personol iawn yn ogystal â hyfforddiant a sgiliau ffurfiol
- wrth i wasanaethau newid i gyfeiriad ymyrraeth mwy buan a modelau gofal newydd byd yn bwysig i'r gweithlu esblygu i gyflenwi'r gwasanaethau hyblyg ac ymatebol fydd eu hangen yn y dyfodol.

**13.2** Mae Cynllun Oes hefyd yn pwysleisio bod datblygiad gweithlu yn hanfodol i wella safonau.

**13.3** Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn ei bod yn bwysig i staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gydag oedolion ag anabledd dysgu feddu'r gwerthoedd a'r sgiliau priodol, a adlewyrchwyd yn eu hyfforddiant a'u cymwysterau, i gwrdd â'r heriau a nodir yn y ddogfen hon ac yn Arweiniad Adran 7 ar Egwyddorion Gwasanaeth ac Ymatebion Gwasanaeth ar gyfer Oedolion a Phobl Hŷn ag Anabledd Dysgu.

**13.4** Mae gweithio effeithiol ar y cyd yn elfen hanfodol o ddatblygu'r gweithlu sy'n ofynnol i gefnogi oedolion ag anabledd dysgu. Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae angen gwneud mwy i gynyddu nifer y staff sydd â chymwysterau priodol, yn enwedig yng nghyd-destun trefniadau llety cymunedol sy'n datblygu'n gyson a chymorth cyflogaeth neu weithgaredd dydd. Bydd angen i awdurdodau ystyried pa drefniadau a ddylid eu rhoi ar waith ar gyfer hyfforddi a datblygu staff yn y gwasanaethau hynny y maent yn eu darparu'n uniongyrchol ac yn y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan ddarparwyr dan gontract eraill.

**13.5** Darparwyd arweiniad Llywodraeth y Cynulliad i'r GIG yng Nghymru ac awdurdodau lleol yng nghyswllt cynllunio gweithlu. Mae'n bwysig bod awdurdodau yn rhoi ystyriaeth briodol o ofynion staffio presennol ac yn y dyfodol. Wrth wneud hyn, bydd angen ymdrin â gofynion a disgwyliadau cymwysterau gweithlu a safonau galwedigaethol cenedlaethol a sefydlwyd gan GIG Cymru, Cyngor Gofal Cymru ac yn y gwasanaethau hynny sy'n cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf Safonau Gofal.